

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government


RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:  
14/2016

DYDDIAD CYHOEDDI:  
01/03/2016

[www.gov.wales](http://www.gov.wales)

# Ymchwil i raglen beilot y Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol (Hydref, 2014) yng Nghymru

Mawrth 2016



# Ymchwil i raglen beilot y Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol (Hydref, 2014) yng Nghymru

Mawrth 2016

Heledd Jenkins, Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Heledd Jenkins

Gwasanaethau Dadansoddi a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 6255

E-bost: [Heledd.Jenkins2@wales.gsi.gov.uk](mailto:Heledd.Jenkins2@wales.gsi.gov.uk)

ISBN: 978-1-4734-6096-6

© Hawlfraint y Goron 2016

1 Mawrth 2016



Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>

## **Tabl cynnwys**

Geirfa .....	2
1. Cyflwyniad.....	3
2. Methodoleg a chyfyngiadau'r astudiaeth hon .....	4
3. Y Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol (NCS) .....	9
4. Darparu rhaglen beilot NCS yng Nghymru – Engage4Life .....	20
5. Canfyddiadau .....	29
6. Argymhellion .....	61
Adran cyfeirnod.....	64
Atodiad A .....	65
Atodiad B .....	67

## **Rhestr o ffigurau**

Ffigur 1: Ethos NCS .....	9
Ffigur 2: Camau o ran darparu NCS a'r ymwneud gan sefydliadau ymgysylltu a gwirfoddoli ieuencid yng Nghymru .....	23
Ffigur 3: Canfyddiadau athrawon am fuddion rhaglen beilot NCS yng Nghymru – cyn ac ar ôl cyfranogi.....	52
Ffigur 4: Bodlonrwydd ar y modd y cafodd Rhaglen NCS yng Nghymru ei hybu, ei chynllunio a'i chyflawni .....	53
Ffigur 5: Integreiddio Rhaglen Beilot NCS yng Nghymru .....	54

## Geirfa

Acronym	Diffiniad
NCS	Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol (National Citizens Service)

## 1. Cyflwyniad

- 1.1 Menter a gefnogir gan Lywodraeth y DU ac sy'n dod â phobl ifanc rhwng 15 a 17 oed o wahanol gefndiroedd ynghyd i'w helpu i ddatblygu mwy o hyder, hunan-ymwybyddiaeth a chyfrifoldeb, gyda golwg ar greu cymdeithas sy'n fwy cydlynus, yn fwy cyfrifol ac yn cymryd rhan yn gynyddol yw'r Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol (NCS). Cafodd y fenter ei threialu yng Nghymru yn hydref 2014.
- 1.2 Cyfrifoldeb yr Adran Cymunedau a Threchu Tlodi yn Llywodraeth Cymru yw comisiynu rhaglen beilot NCS a monitro'r modd y caiff ei darparu. Fel rhan o'r broses o fonitro rhaglen beilot NCS cafodd ymchwil ar raddfa fach i raglen beilot NCS ei chomisiynu gan yr Adran. Cafodd y Rhaglen Ymchwil Fewnol o fewn yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol, Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, ei chomisiynu i gynnal gwerthusiad Llywodraeth Cymru. Cylch gwaith y Rhaglen Ymchwil Fewnol yw rhoi cymorth ymchwil ar draws meysydd polisi, a datblygu a chyflawni prosiectau ymchwil ar raddfa fach.
- 1.3 Roedd cylch gwaith yr ymchwil yn canolbwyntio ar gasglu barn rhanddeiliaid allweddol ym maes gwaith ieuenctid a gwirfoddoli ieuenctid yng Nghymru a barn athrawon y gwnaeth eu disgyblion gyfranogi yn y rhaglen beilot. Mae adroddiad ymchwil Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth gefndir a'r cyd-destun Cymreig ar gyfer rhaglen beilot y Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol yng Nghymru (2014), crynodeb o werthusiadau yn y gorffennol a'r presennol o NCS ar lefel y DU a chanlyniadau a dadansoddiad o'r ymchwil a gomisiynwyd yn fewnol (barn rhanddeiliaid).

## **2. Methodoleg a chyfyngiadau'r astudiaeth hon**

- 2.1 Comisiynwyd prosiect ymchwil ar raddfa fach i ymchwilio i farn rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru ynghylch cynllun rhaglen beilot NCS a'r modd y cafodd ei rhoi ar waith. Er bod y profiadau a'r canlyniadau i gyfranogwyr wedi cael eu dogfennu gan werthusiadau blynyddol o raglen NCS y DU, a bod rhai gwerthusiadau wedi cynnwys tystiolaeth ansoddol o gyfweiliadau gyda rhieni ac athrawon, nid yw barn rhanddeiliaid sydd hefyd yn rhan o ddarparu gwaith ieuencid a chyfleoedd gwirfoddoli i bobl ifanc wedi cael eu casglu hyd yma. O ystyried cyfyngiadau'r astudiaeth hon o ran amser ac adnoddau (i gynnal gwerthusiad ar raddfa lawn o raglen beilot NCS yng Nghymru) a phwysigrwyd y Trydydd Sector yng Nghymru i ddarparu gwasanaethau ieuencid, penderfynwyd fod angen barn rhanddeiliaid i lenwi'r bwlch yn y ddealltwriaeth am y modd y darparwyd rhaglen beilot NCS ac effaith y rhaglen.
- 2.2 Mae barn rhanddeiliaid yn arbennig o bwysig i hysbysu ynghylch y cyfleoedd posibl ar gyfer parhau â rhaglen debyg i NCS yng Nghymru gan fod y dirwedd y byddai'n rhan ohoni'n wahanol yng Nghymru. Roedd manyleb Swyddfa'r Cabinet ar gyfer y contract i ddarparu rhaglen beilot NCS yng Nghymru'n datgan bod yn rhaid i unrhyw ddarpariaeth ystyried ac ymgysylltu â'r sefydliadau sy'n gweithredu yn y sector gwirfoddol gwaith ieuencid a gwirfoddoli ieuencid yng Nghymru. Mae'r ymchwil hon yn ymchwilio i ba raddau y digwyddodd hynny.
- 2.3 Cafodd cyfweiliadau lled-strwythuredig gydag 14 o randdeiliaid (12 o randdeiliaid allanol, 2 o randdeiliaid mewnol yn Llywodraeth Cymru, 70% o'r rhai y cysylltwyd â hwy) eu cynnal (13 o gyfweiliadau dros y ffôn, un cyfweiliad wyneb yn wyneb) ym mis Mawrth ac ar ddechrau mis Ebrill 2015 (cyfnod a oedd yn cydreddeg â'r arolwg ar ôl cyfranogi a gynhaliwyd gan Ipsos MORI) i ymchwilio i farn a chanfyddiadau rhanddeiliaid ynglŷn â rhaglen beilot NCS yng Nghymru. Cafodd y themâu canlynol eu harchwilio yn ystod y cyfweiliadau:

- Lefelau'r ymwybyddiaeth o raglen beilot NCS a'r ymgysylltiad â hi.
- Natur yr ymgysylltiad â rhaglen beilot NCS a pha un a oedd hyn yn ddigon.
- A wnaeth rhaglen beilot NCS gyrraedd ei nodau a chyflawni ei hamcanion gwreiddiol.
- Argraffiadau cyffredinol o raglen beilot NCS.
- Rôl rhaglen NCS yn y dyfodol yng Nghymru.
- Rôl eu sefydliad yn rhaglen NCS yn y dyfodol pe bai'n parhau yng Nghymru.
- Gwersi a ddysgwyd o raglen beilot NCS ac y gellir eu dysgu o'r dirwedd bresennol yng Nghymru.
- Integreiddio NCS â nodau ar gyfer addysg a datblygu ieuenctid yng Nghymru.
- Unrhyw debygrwydd/gwrthdaro rhwng eu sefydliad a rhaglen NCS.

2.4 Cafodd y cyfweiliadau eu recordio a'u trawsgrifio air am air, ac yna'u dadansoddi gan ddefnyddio meddalwedd MAXQDA i adnabod themâu cyffredin. Cafodd canlyniadau'r dadansoddiad hwn eu cyfuno ac maent wedi cael eu cyflwyno'n ddienw; ni ellir adnabod unrhyw unigolyn na sefydliad o'r wybodaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

2.5 Cynhaliwyd arolwg gydag athrawon y gwnaeth eu disgyblion gyfranogi yn rhaglen beilot NCS yng Nghymru fel rhan o'r ymchwil hon hefyd. Oherwydd cyfyngiadau o ran amser dewiswyd methodoleg a oedd yn seiliedig ar arolwg ar-lein. Anfonwyd yr arolwg at brif gysylltiadau mewn ysgolion a cholegau a ddarparwyd gan Engage4Life (yr asiantaeth ddarparu). Anfonwyd pymtheg o arolygon, a gofynnwyd i dderbynwyr raeadr'u arolwg i gydweithwyr a oedd â chyswllt â disgyblion a oedd wedi mynychu rhaglen beilot NCS yng Nghymru. Oherwydd natur fach y boblogaeth wreiddiol nid yw'r data'n

gadarn, ond fe'i cyflwynir yma i gynnig ciplun o farn y rhai sy'n cefnogi pobl ifanc a fynychodd raglen beilot NCS ynglŷn â'r modd y cafodd y rhaglen ei darparu, ei chynllun a'i buddion i bobl ifanc. Caiff canlyniadau'r arolwg eu disgrifio yn yr adroddiad hwn.

2.6 Gan mai ymchwil ar raddfa fach oedd hon a chan mai adnoddau cyfyngedig a oedd ar gael ni chasglwyd data ynghylch cyfranogwyr. Fodd bynnag, mae Swyddfa Cabinet y DU wedi comisiynu gwerthusiad o NCS ers y rhaglen beilot gyntaf yn 2011 ac ym mhob blwyddyn ddilynol. Darperir crynodeb o brofiadau a chanlyniadau cyfranogwyr o bob un o'r gwerthusiadau hyn (ac eithrio'r rhaglen beilot yn 2011) yn yr adroddiad hwn. Nid yw data ychwanegol o werthusiad 2014 (Ipsos MORI) wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn gan nad yw wedi cael ei gyhoeddi eto. Roedd gwerthusiad 2014 yn cynnwys cyfranogwyr y rhaglen beilot yng Nghymru hefyd. Oherwydd y sampl fach iawn a ddychwelwyd, nid yw'r data hwn yn ddigon cadarn i gael ei gynnwys yn yr adroddiad hwn.

2.7 Yn ystod cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid, a gynhaliwyd fel rhan o'r ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, cydnabuwyd, er bod peth data'n cael ei gasglu ynghylch canlyniadau gwaith ieuencid a rhaglenni gwirfoddoli i bobl ifanc yng Nghymru, bod angen tystiolaeth fwy hydredol. Mae sawl gwerthusiad o raglen NCS wedi cael eu cynnal bellach ac mae ffocws ar gasglu data dros amser wrth i'r rhaglen barhau; fodd bynnag, mae diffyg tystiolaeth ar hyn o bryd ar gyfer y canlyniadau hirdymor i bobl ifanc. Datblygwyd model rhesymeg fel rhan o'r cam cwmpasu ar gyfer y gwerthusiad cyntaf o raglen NCS. Mae'r model rhesymeg yn nodi sut y mae rhaglen NCS wedi'i bwriadu i weithio trwy nodi mewnbynnau, gweithgareddau, mecanweithiau newid a chanlyniadau'r rhaglen a'r perthnasoedd rhwng y gwahanol elfennau o'r rhaglen. Roedd y model rhesymeg ar gyfer y rhaglen yn darparu ffrâm gyfeiriol ar gyfer mesur llwyddiant y rhaglen. Roedd disgwyl i ganlyniadau'r rhaglen fod mewn pedwar maes allweddol – cymysgu cymdeithasol, pontio i oedolaeth, sgiliau gwaith tîm, cyfathrebu ac arwain a chwarae rhan yn y gymuned;



defnyddiwyd y rhain mewn gwerthusiadau dilynol. Fodd bynnag, roedd y manylion a oedd yn sail i'r model rhesymeg wedi'u cynnwys mewn adroddiad technegol sydd heb gael ei gyhoeddi ac felly nid oedd y ddamcaniaeth newid a oedd yn sail i'r model rhesymeg ar gael ar gyfer yr adroddiad hwn. Nid yw gwerthusiadau dilynol yn cynnwys unrhyw gyfeiriad pellach at y model rhesymeg hwn.

2.8 Ni all yr ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru lenwi'r bwlch o ran mesur canlyniadau hirdymor a chyfleu damcaniaeth newid ar gyfer pobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gwaith ieuenctid a rhaglenni gwirfoddoli ieuenctid, ond mae'n amlygu bod diffyg ymchwil hydredol i ganlyniadau'n bryder cyffredin ymhlith sefydliadau gwaith ieuenctid a gwirfoddoli ieuenctid yng Nghymru ac yn ystyriaeth ar gyfer gwaith ymchwil a gwerthuso yn y dyfodol.

2.9 Mae data ychwanegol wedi cael ei gasglu ynghylch y rhaglen beilot yng Nghymru trwy astudiaeth fanwl a gynhaliwyd gan Brifysgol Abertawe (heb ei gyhoeddi) ac mae wedi'i gynnwys drwy'r adroddiad hwn. Cafodd y Sefydliad Gwyddorau Bywyd yn Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe orchwyl gan Ddarparwr NCS, Engage4Life, i gynnal adolygiad annibynnol i ategu'r gwerthusiad o'r rhaglen beilot gan yr holl randdeiliaid gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU. Cwmpas gwerthusiad Prifysgol Abertawe oedd pwysu a mesur ansawdd ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth, ynghyd â'r modd y cafodd ei hintegreiddio â'r dirwedd yng Nghymru. Roedd tri amcan allweddol i'r gwerthusiad:

- Roedd y gwerthusiad yn ceisio canfod sut y cafodd rhaglen beilot NCS ei darparu yng Nghymru trwy ystyried ymlyniad wrth arferion sefydledig NCS. Fe ymchwiliodd hefyd i arferion marchnata a recriwtio, y cymysgedd cymdeithasol a gyflawnwyd, ac ansawdd staffio, lleoliadau a phrofiadau.
- Yr ail nod oedd asesu ansawdd y profiad i gyfranogwyr. Mae gwerthusiadau blaenorol wedi archwilio effeithiolrwydd rhaglen NCS o ran cyflawni canlyniadau mewn perthynas â'r

Canlyniadau targed ar gyfer Cymysgu Cymdeithasol, Pontio i Oedolaeth, Sgiliau gwaith tîm, cyfathrebu ac arwain, a Chwarae rhan yn y gymuned trwy arolygon gyda chyfranogwyr, teuluoedd ac athrawon. Nod y gwerthusiad hwn fu darparu dealltwriaeth bellach am bob maes canlyniad i ddeall profiad cyfranogwyr a chyfraniad menter NCS.

- Trydydd nod y gwerthusiad oedd profi i ba raddau y cafodd Rhaglen Beilot NCS yng Nghymru ei hintegreiddio o fewn y cyddestun Cymreig (gweler adran 3.1). Mae'r data hwn yn cynnwys gwerthusiad proses o raglen beilot NCS yng Nghymru, data ynghylch cyfranogwyr, a data o gyfweiliadau gyda rhanddeiliaid.


2.10 Datblygwyd dull cymysg a oedd yn cyfuno offer ymchwil ansoddol a meintiol. Archwiliwyd y modd y cafodd y fenter ei hintegreiddio â mentrau eraill trwy gyfweiliadau gyda chymunedau'r cyfranogwyr a rhanddeiliaid ehangach. Aeth y tîm ymchwil a staff Engage4Life (a oedd wedi'u hyfforddi i wneud hynny) ati i gasglu data meintiol ac ansoddol ymhlith cyfranogwyr (cynhaliwyd 38 o gyfweiliadau, a'r rheiny'n cynrychioli cyfradd ymateb o 10%).

### 3. Y Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol (NCS)

#### Y Cefndir a'r Cyd-destun Cymreig

3.1 Menter a gefnogir gan Lywodraeth y DU ac sy'n dod â phobl ifanc rhwng 15 a 17 oed o wahanol gefndiroedd ynghyd i'w helpu i ddatblygu mwy o hyder, hunan-ymwybyddiaeth a chyfrifoldeb, gyda golwg ar greu cymdeithas sy'n fwy cydlynus, yn fwy cyfrifol ac yn cymryd rhan yn gynyddol yw'r Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol (NCS). Cynhelir rhaglen NCS dros sawl wythnos – y tu allan i amser ysgol – yn y gwanwyn, yr haf a'r hydref. Gall pobl ifanc sy'n cymryd rhan ddisgwyl gweithio mewn tîm o 12 i 15 o bobl ifanc o wahanol gefndiroedd; wynebu gweithgareddau sy'n gryn her ac sy'n wahanol i'r hyn y maent yn gyfarwydd ag ef; byw a gweithio gyda'u tîm yn ystod wythnosau preswyl, i ffwrdd o'u hardal leol ac yn eu hardal leol; a chwarae rhan yn eu cymuned leol. Caiff rhaglen NCS ei hegluro gan ffigur 1 isod:

#### NCS Ethos



Ffigur 1: Ethos NCS (wedi'i addasu o fanyleb Swyddfa'r Cabinet ar gyfer Rhaglen Beilot NCS yng Nghymru)

3.2 Ers mis Tachwedd 2013, mae'r Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol (NCS) wedi bod yn cael ei reoli yn Lloegr gan Ymddiriedolaeth NCS, cwmni buddiant cymunedol a sefydlwyd gan

Lywodraeth y DU i lunio, hyrwyddo a chefnogi NCS. Cyn y dyddiad hwn, roedd NCS yn cael ei reoli gan Swyddfa'r Cabinet.

- 3.3 Cynigiodd y Swyddfa Cymdeithas Sifil (sy'n gyfrifol am waith gydag elusennau, mentrau cymdeithasol a mudiadau gwirfoddol yn Lloegr) yn Swyddfa'r Cabinet raglen beilot ar gyfer darparu'r Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol yng Nghymru yn 2014. Bu Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Swyddfa'r Cabinet ar y trefniadau. Ar ôl proses o gynnig am y contract i ddarparu rhaglen beilot NCS yng Nghymru, dyfarnwyd y contract i Engage4Life a chynhaliwyd rhaglen beilot NCS yng Nghymru yn ystod hydref 2014.
- 3.4 Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb datganoledig am Addysg, Gwaith Ieuencid, mentrau cymdeithasol a Gwirfoddoli (ond nid rheoleiddio elusennau) yng Nghymru. Mae Cynllun y Trydydd Sector yn tanategu ac yn arwain ei pherthynas barhaus â'r Mudiadau Cymunedol, mentrau cymdeithasol a'r Sector Gwirfoddol, y cyfeirir atynt ar y cyd fel y "Trydydd Sector" yng Nghymru.
- 3.5 Yr Adran Cymunedau a Threchu Tlodi yw'r Adran arweiniol yn Llywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am drechu tlodi, hybu cadernid cymunedol, hybu hawliau a chyfranogiad plant a phobl ifanc, hybu cydraddoldeb a chynhwysiant, a chefnogi datblygiad y Trydydd Sector a gwella perthynas strategol y Sector â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.
- 3.6 Cafodd y rhaglen beilot a gynigiwyd ei hariannu gan Swyddfa'r Cabinet, gydag uchafswm o £300,000 wedi'i neilltuo. Pennwyd isafswm cost o £1,000 y cyfranogwr ac yn wahanol i Loegr, lle mae'n rhaid talu hyd at £50 i gymryd rhan, nid oedd y rhaglen beilot yng Nghymru'n codi tâl ar gyfranogwyr.
- 3.7 Roedd y fanyleb dendro ar gyfer y rhaglen beilot a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet yn nodi bod angen i Ymgeiswyr allu dangos gwybodaeth gadarn am nodweddion economaidd-gymdeithasol Cymru, tirwedd y sector ieuencid, addysg a gwirfoddoli yng Nghymru a gallu dangos ymagwedd bartneriaeth gref, gan wneud defnydd o'r

sectorau cyhoeddus a phreifat a'r Trydydd Sector yng Nghymru a chydweithio â hwy i gyflwyno'r rhaglen a ddymunid. Byddai disgwyl i ymgeiswyr feithrin cysylltiadau cryf â rhaglenni Llywodraeth Cymru gan gynnwys Cymunedau yn Gyntaf, GwirVol a Bagloriaeth Cymru. Roedd ymwneud gweithredol gan nifer o Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf â datblygu a darparu rhaglen NCS yng Nghymru'n cael ei ystyried yn arbennig o bwysig.

*“Ystyrir bod Cyrff Cyflawni Arweiniol rhaglen Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth Cymru, Rhaglen GwirVol, a chynnwys sefydliadau lleol y Trydydd Sector yn elfen hanfodol o gyflawni'r cynllun Peilot a ddymunir, a rhaid i Ymgeiswyr gadw hyn mewn cof”.*

3.8 Er mwyn sicrhau cysondeb roedd yn ofynnol i'r darparwr llwyddiannus:

- Gydymffurfio ag Eiddo Deallusol y rhaglen nawr ac yn y dyfodol;
- Defnyddio'r arfer gorau o ganllaw cyfeirio NCS fel sail ar gyfer cynnwys y rhaglen;
- Ymwneud â rhaglenni Llywodraeth Cymru gan gynnwys y rhai a ddylunnir i hyrwyddo gweithredu ieuencid, addysg a gwirfoddoli; a
- Chydymffurfio â chanllawiau brand Ymddiriedolaeth NCS nawr ac yn y dyfodol.

3.9 Mae sawl cam i raglen NCS, gan gynnwys: elfen breswyl; dod i adnabod y gymuned; datblygu sgiliau personol a chymdeithasol; a dylunio prosiectau gweithredu cymdeithasol yn y gymuned a'u rhoi ar waith. Roedd dogfen dendr Swyddfa'r Cabinet yn nodi:

*“Mae'n hanfodol bod y cymysgedd cymdeithasol yn cyflawni'r cydbwysedd cywir rhwng sicrhau cymysgedd daearyddol, economaidd a chymdeithasol mesuradwy y cyfranogwyr. Gofynnir i ymgeiswyr ystyried cymysgedd o ardaloedd trefol a gwledig, trefi a chefn gwlad a phentrefi llai. Bydd yr Ymgeisydd yn cyflwyno cynllun GDC a ddewisir o'r ardaloedd a amlinellir yn Atodiad B. Ni ddisgwylir y bydd yr holl ardaloedd yn cael eu cynnwys yn y Peilot hwn”.*

- 3.10 Cyfrifoldeb y sefydliad darparu oedd recriwtio pobl ifanc i raglen NCS yng Nghymru. Roedd manyleb dendro Swyddfa'r Cabinet yn nodi y dylai ymgeiswyr arddangos perthynas waith gref gyda mudiadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc yng Nghymru er mwyn recriwtio'n llwyddiannus. Roedd hyn yn cynnwys y canlynol (ond nid oedd yn gyfyngedig iddynt): academiâu/ysgolion/colegau; cyflogwyr; Awdurdodau Lleol, yn benodol felly Dimau Troseddwy'r Ifanc, gwasanaethau ieuencid a gwasanaethau gofal cymdeithasol; Grwpiau gwirfoddol a chymunedol; Gwasanaethau iechyd lleol; Mudiadau'r sector gwirfoddol a chymunedol a mudiadau arbenigol; Trefniadau Partneriaethau Lleol, gan gynnwys Partneriaethau Menter Lleol lle y bo'n briodol; clystyrau Cymunedau yn Gyntaf Cymru a'u Cyrff Cyflawni Arweiniol yng Nghymru; Canolfan Byd Gwaith; Gwasanaethau heddlu; Mudiadau cenedlaethol sy'n cefnogi gweithgarwch lleol. Roedd Ymgeiswyr yn cael eu hannog yn gryf i ymgysylltu â Chynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddol yng Nghymru fel dull recriwtio ychwanegol.
- 3.11 Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi nifer o'i rhaglenni ei hun sydd wedi'u bwriadu i hybu ymgysylltu a gweithredu gwirfoddol gan bobl ifanc yng Nghymru. Roedd disgwyl bod rhaglen beilot NCS yng Nghymru'n cael ei hintegreiddio â rhaglenni Llywodraeth Cymru ac yn gweithio ochr yn ochr â hwy lle'r oedd yn bosibl. Ceir trosolwg o'r rhaglenni hyn yma.

### **Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid**

- 3.12 Ar 1 Hydref 2013 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid a chynllun gweithredu ar gyfer ei gyflawni. Mae chwe elfen allweddol i'r Fframwaith:
- Nodi pobl ifanc sydd fwyaf tebygol o ymddieithrio.
  - Gwell broceriaeth a chydgyssylltu o ran cymorth.
  - Prosesau tracio a phontio cryfach drwy'r system i bobl ifanc.
  - Sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion pobl ifanc.

- Atgyfnerthu sgiliau cyflogadwyedd a chyfleoedd i gael cyflogaeth.
  - Gwell atebolrwydd i sicrhau gwell deilliannau i bobl ifanc.
- 3.13 Mae'r Fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl sefydliadau sy'n darparu gweithgarwch ar gyfer pobl ifanc ddefnyddio dull integredig, gan ganolbwyntio ar anghenion yr unigolyn. Rhoddir gorchwyl i Awdurdodau Lleol roi'r cymorth y mae ar bobl ifanc ei angen i hybu eu datblygiad trwy addysg a hyfforddiant ac i gyflogaeth. Mae hyn yn cael ei gyflawni trwy ddull system gyfan o nodi anghenion yn cynnar, broceru cymorth mewn modd cydgysylltiedig a thracio cynnydd y person ifanc.
- 3.14 Wrth wraidd y Fframwaith mae dau gam gweithredu newydd. Y cyntaf yw cynnig gweithiwr arweiniol o fewn sefydliad perthnasol a all ddarparu parhad o ran y cymorth a'r cyswllt ar gyfer y bobl ifanc sydd fwyaf mewn perygl.
- 3.15 Mae'r ail yn ymwneud â datblygu cynnig rhagweithiol o Warant leuentid, sef cynnig, derbyn a dechrau lle addas mewn addysg neu hyfforddiant i berson ifanc sy'n mynd trwy'r broses bontio am y tro cyntaf o addysg orfodol pan fo'n 16 oed. Mae Llywodraeth Cymru yn credu y bydd hyn yn darparu llwybr datblygu eglur ar gyfer yr holl bobl ifanc, a hwnnw wedi'i gysylltu â gwybodaeth, cyngor a chanllawiau effeithiol i'w helpu i wneud dewis mwy gwybodus, a chefnogi eu datblygiad ar ôl 16.
- 3.16 Mae pob awdurdod lleol wedi penodi Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu. Mae'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu'n cyflawni rôl allweddol bwysig o ran gweithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu leuentid. Maent yn cydweithio'n agos gyda Gyrfa Cymru i roi'r arweinyddiaeth weithredol y mae ei hangen i adnabod lefel risg pobl ifanc a'r cymorth penodol y mae ei angen i'w helpu i ddatblygu'n gadarnhaol.
- 3.17 Mae'r Fframwaith yn darparu'r strwythur i helpu awdurdodau lleol i ganfod a yw darpariaeth leol a chenedlaethol yn cyflawni canlyniadau effeithiol ac yn rhoi gwerth am arian trwy fesur gostyngiadau yn

niferoedd y bobl ifanc Nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) ar lefel leol. Nid oes cost ychwanegol i weithredu'r Fframwaith; mae wedi'i fwriadu i helpu awdurdodau lleol i ailbennu ffocws eu gwariant presennol o ganlyniad i fapio'r ddarpariaeth i ganfod bylchau posibl, adnabod unrhyw angen am ddarpariaeth nas diwallwyd ac, yn bwysig, cael gwared ar unrhyw ddyblygu a gorgyffyrddiadau yn y ddarpariaeth.

- 3.18 Mae gan bob awdurdod lleol gyswllt arweiniol yn Llywodraeth Cymru sy'n cydweithio'n agos gyda hwy i roi cymorth iddynt weithredu'r fframwaith. Fe wnaethom sefydlu Gweithgorau Rhanbarthol hefyd sy'n cynnwys Awdurdodau Lleol a chynrychiolaeth o Gyrfa Cymru, y sector Addysg Bellach, y sector Dysgu Seiliedig ar Waith, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, Consortia Addysg Rhanbarthol, ysgolion a'r Trydydd Sector. Mae themâu'r gweithdai'n seiliedig ar y gwahanol feysydd yn y fframwaith er mwyn rhannu profiadau, amlygu arfer da a helpu Llywodraeth Cymru i ddatblygu unrhyw ganllawiau pellach y mae eu hangen.

### **Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru**

- 3.19 Lansiodd Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru (2014-2018) ar 20 Chwefror 2014. Mae'r strategaeth yn cydnabod gwerth a rôl gwaith ieuenctid mynediad agored; mae'n hyrwyddo cysylltiad cryfach rhwng gwaith ieuenctid ac addysg ffurfiol; mae'n nodi'r angen am gydweithio agosach rhwng mudiadau gwaith ieuenctid statudol a gwirfoddol; ac mae'n nodi'r angen i gryfhau'n sylweddol y sylfaen dystiolaeth ar effaith gwaith ieuenctid ledled Cymru. Bydd angen i Lywodraeth Cymru, mudiadau gwirfoddol cenedlaethol a lleol, yn ogystal ag awdurdodau lleol, gydweithio er mwyn gweithredu'r camau a nodwyd a datblygu gwaith ieuenctid.



## Bagloriaeth Cymru

- 3.20 Mae'r Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol (NCS) yn ceisio cyflwyno pobl ifanc i gydsyniad cyfrifoldeb dinesig wrth iddynt bontio i oedolaeth. Mae NCS yn cynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu'r sgiliau a'r agweddau y mae eu hangen arnynt i ymgysylltu'n fwy â'u cymunedau a dod yn ddinasyddion gweithredol a chyfrifol.
- 3.21 Mae nodau allweddol NCS yn gyson iawn â Bagloriaeth Cymru ar ei gwedd bresennol. Mae cyfranogi yn y gymuned yn elfen orfodol o Graidd Bagloriaeth Cymru ar bob un o'r tair lefel. Mae Cyfranogi yn y Gymuned yn rhan o'r elfen Addysg Personol a Chymdeithasol o Graidd Bagloriaeth Cymru, a'i nod yw:
- datblygu ymwybyddiaeth o ystyr bod yn ddinesydd gweithredol a chyfrifol trwy helpu eraill;
  - rhoi cyfleoedd i ymgeiswyr gymryd rhan mewn cyfranogi'n weithredol yn y gymuned, na ellir ei wneud y tu ôl i ddesg;
  - ymwneud â'r byd real a'r gymuned ehangach, y tu allan i'r dosbarth;
  - annog ymgeiswyr i weithio mewn grwpiau.
- 3.22 Yn dilyn yr Adolygiad o Gymwysterau yng Nghymru, mae Bagloriaeth Cymru yn cael ei diwygio i wneud y model yn fwy trylwyr. Bydd y model diwygiedig yn cael ei addysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2015.
- 3.23 Mae model lefel uchel wedi cael ei gytuno gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau. Mae'n cadw, ar bob lefel, elfen orfodol sy'n ymwneud â chyfranogi yn y gymuned – a gryfhawyd ac a ailenwyd yn Her Gymunedol. Bydd disgwyl i ddysgwyr ganfod a datblygu cyfleoedd yn y gymuned leol neu ehangach a chyfranogi'n weithredol i gefnogi gwelliant. Gall hyn fod yn weithgaredd a arweinir gan y ganolfan neu fe all olygu bod mudiadau yn y trydydd sector yn dod i mewn i ganolfannau i helpu i gyflawni'r her a rhoi adborth i ddysgwyr ar ganlyniadau.
- 3.24 Ar hyn o bryd nid yw Bagloriaeth Cymru yn orfodol ac mae tua 60% o'r dysgwyr 16-19 oed a hanner y dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 4

bellach yn dilyn cyrsiau Bagloriaeth Cymru. Fodd bynnag, yn unol â'r argymhellion o'r Adolygiad o Gymwysterau, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi anogaeth i bawb fabwysiadu'r fersiwn ddiwygiedig, fwy trylwyr o Fagloriaeth Cymru a fydd yn cael ei gweithredu o fis Medi 2015.

3.25 Bydd y fersiwn ddiwygiedig o Fagloriaeth Cymru, trwy'r Dystysgrif Her Sgiliau, yn cynnwys ffocws clir ar y sgiliau canlynol:

- Rhifedd
- Llythrennedd
- Llythrennedd Digidol
- Meddwl yn feirniadol a datrys problemau
- Cynllunio a Threfnu
- Creadigrwydd ac Arloesi
- Effeithiolrwydd Personol

3.26 Bydd y sgiliau hyn yn cael eu datblygu, eu cymhwysu a'u hasesu trwy gwblhau pedair 'Her' a thrwy gwblhau'r cymwysterau TGAU newydd mewn Cymraeg/Saesneg a Mathemateg/Rhifedd. Y pedair Her yw:

- Her y Prosiect Unigol
- Yr Her Dinasyddiaeth Fyd-eang
- Yr Her Menter a Chyflogadwyedd
- Yr Her Gymunedol

### **Gwaith ieuentid a gwirfoddoli gan bobl ifanc yng Nghymru**

#### *Partneriaeth GwirVol*

3.27 Partneriaeth rhwng y sectorau Gwirfoddol, Cymunedol, Cyhoeddus a Phreifat yw GwirVol ac fe'i harweinir gan farn pobl ifanc yng Nghymru. Mae'r Bartneriaeth yn bodoli er mwyn gweithredu argymhellion Comisiwn Russell . Mae'r argymhellion wedi'u bwriadu i ddarparu fframwaith i achosi newid llwyr yn niferoedd ac amrywiaeth y gwirfoddolwyr ifanc ac i roi mwy o gyfleoedd gwirfoddoli iddynt a'r rheiny'n gyfleoedd o ansawdd gwell.

3.28 Nod y Bartneriaeth yw:

- cynyddu canran bresennol y bobl ifanc 16 – 25 oed sydd am wirfoddoli;

- ehangu cwmpas cyfleoedd gwirfoddoli i gynnwys pobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau oherwydd anfantais, gallu neu ethnigrwydd;
  - dathlu cyfraniad pobl ifanc trwy roi cydnabyddiaeth a gwobrau iddynt;
  - sicrhau bod pob cyfle i wirfoddoli yn cynnig profiad cadarnhaol o ansawdd uchel.
- 3.29 Mae GwirVol yn ceisio cynorthwyo pobl ifanc i ddechrau gwirfoddoli mewn nifer o ffyrdd.
- 3.30 Cyngorwyr Gwirfoddoli Ieuenctid: Mae 22 o Gyngorwyr Gwirfoddoli Ieuenctid rhan-amser gan GwirVol sydd wedi'u lleoli yn y canolfannau gwirfoddol ledled Cymru. Mae'r Cyngorwyr Gwirfoddoli Ieuenctid yno i gynnig cyngor a gwybodaeth ynglŷn â sut i wirfoddoli. Maent yno i siarad gyda phobl ifanc am yr hyn y maent yn dymuno'i wneud a'r hyn y maent yn dymuno'i gael o'u profiad. Mae ganddynt ystod o gyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael i bobl ifanc eu hystyried a gallant roi pobl ifanc mewn cysylltiad â'r sefydliad cywir iddynt hwy. Mae'r Cyngorwyr Gwirfoddoli Ieuenctid hefyd yn bartneriaid cyflawni lleol ar gyfer Gwirfoddolwyr y Mileniwm.
- 3.31 Gwobr Gwirfoddolwyr y Mileniwm: Mae Gwirfoddolwyr y Mileniwm yn rhaglen wobrwyo sy'n cynorthwyo pobl ifanc i ymrwmo i wirfoddoli am 200 awr neu fwy yn eu cymuned. Mae'n annog pobl ifanc 14-25 oed i adeiladu ar y sgiliau a'r diddordebau sydd eisoes ganddynt ac i ennill profiadau newydd trwy roi o'u hamser i gyflawni gweithgareddau gwirfoddoli gwerth chweil, sydd wedi cael eu trefnu'n dda. Caiff eu hymdrechion eu cydnabod trwy Dystysgrif 50 awr a 100 awr a Gwobr Ragoriaeth 200 awr a lofnodir gan Brif Weinidog Cymru.
- 3.32 Os Rhowch Fe Gewch gan GwirVol: Cyhoeddiad yw Os Rhowch Fe Gewch gan GwirVol sy'n nodi nifer o raglenni cydnabyddiaeth a gwobrwyo yng Nghymru y gallai gwirfoddolwyr ifanc fod yn gymwys i gymryd rhan ynddynt.
- 3.33 Grantiau dan arweiniad Ieuenctid: Ym mhob sir yng Nghymru, mae Cyngorwyr Gwirfoddoli Ieuenctid wedi cefnogi'r broses o sefydlu Paneli Grantiau dan Arweiniad Ieuenctid. Grwpiau o bobl ifanc o'r

ardal leol yw'r rhain y dyrennir hyd at £4,000 iddynt i'w ddsbarthu trwy grantiau i weithgareddau gwirfoddoli dan arweiniad ieuenctid. Caiff pob ardal ei harwain gan syniadau ac anghenion pobl ifanc a'r paneli eu hunain sy'n penderfynu ar y meini prawf ar gyfer y grantiau, y grwpiau sy'n cael blaenoriaeth a'r broses ymgeisio ond maent i gyd yn amcanu at ddatblygu gwirfoddoli ieuenctid ac yn chwilio am geisiadau gan prosiectau a arweinir gan bobl ifanc eu hunain.

#### *Y Gronfa Gwirfoddoli yng Nghymru*

- 3.34 Cynllun a ariennir gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo gwirfoddoli yng Nghymru yw'r Gronfa Gwirfoddoli yng Nghymru. Gweinyddir y Gronfa gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA).
- 3.35 Nod y Gronfa Gwirfoddoli yng Nghymru yw;
- Cefnogi prosiectau gwirfoddoli ffurfiol sy'n anelu at recriwtio, cefnogi, hyfforddi a lleoli gwirfoddolwyr newydd.
  - Hybu arferion da wrth wirfoddoli;
  - Cefnogi datblygiad gwirfoddoli mewn meysydd sydd heb eu datblygu'n llawn megis grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol, ardaloedd sydd â llai o gyfleoedd neu fathau o gyfleoedd gwirfoddoli.
- 3.36 Mae grantiau hyd at £25,000 ar gael a all gynorthwyo â chostau cydlynedd gwirfoddoli, treuliau hyfforddi a theithio gwirfoddolwyr a rhai eitemau cyfalaf.

#### *Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS)*

- 3.37 CWVYS (Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol) yw'r corff cynrychiadol annibynnol ar gyfer y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol yng Nghymru. Y nodau yw cynrychioli, cefnogi a rhoi llais ar y cyd i'w aelodaeth o fudiadau cenedlaethol a lleol yn eu gwaith gyda thros 250,000 o bobl ifanc yng Nghymru. Mae CWVYS yn gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau sy'n hyrwyddo arfer da mewn gwaith ieuenctid.

- 3.38 Fel rhan o waith i roi cymorth i weithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, cafodd CWVYS eu penodi i gyflawni prosiect i:
- nodi ac egluro rôl a chyfrifoldebau'r sector gwaith ieuenctid gwirfoddol o ran gweithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid;
  - nodi strwythurau cynaliadwy ar gyfer gweithio mewn partneriaeth rhwng y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol ac awdurdodau lleol;
  - nodi a rhannu arfer effeithiol i roi cymorth gwell i system ddarparu y mae anghenion pobl ifanc yn ganolog iddi;
  - nodi a mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth yn benodol ar haen 1 a 2 yn y model ymgysylltu a datblygu ieuenctid ac ystyried yr angen i ddatblygu cynnig gwirfoddoli ffurfiol;
  - nodi a darparu unrhyw adnoddau eraill y mae eu hangen i gynorthwyo sefydliadau, gweithwyr a phwyllgorau yn y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol i gyflawni eu rôl o fewn y fframwaith (gan gynnwys adnoddau sydd wedi'u bwriadu ar gyfer yr awdurdod lleol).

#### *Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru*

- 3.39 Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) yn cynrychioli, yn cefnogi ac yn datblygu mudiadau gwirfoddol, grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr yng Nghymru, ac yn ymgyrchu drostynt. Mae WCVA yn cynrychioli'r sector ar lefel y DU ac ar lefel genedlaethol, ac ynghyd ag ystod o asiantaethau arbenigol, cynghorau gwirfoddol sirol, canolfannau gwirfoddol ac asiantaethau datblygu eraill, mae'n darparu strwythur cymorth ar gyfer y trydydd sector yng Nghymru. Mae gan WCVA dros 3,000 o aelodau, ac mae mewn cysylltiad â llawer mwy o sefydliadau trwy ystod eang o rwydweithiau cenedlaethol a lleol.

#### **4. Darparu rhaglen beilot NCS yng Nghymru – Engage4Life**

- 4.1 Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o ddarparu rhaglen beilot NCS fel y'i disgrifiwyd yn Adroddiad Gwerthuso Prosiect Peilot NCS yng Nghymru gan Engage4Life yn ystod Hydref 2014. Yn 2011 fel gychwynnodd Swyddfa'r Cabinet brosiect peilot i ddatblygu'r fframwaith a'r prosesau ar gyfer y Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol (NCS). Cyflawnodd Engage4Life rôl weithredol fel un o'r gyfres gyntaf o bartneriaid darparu NCS yn ystod cyfnod peilot NCS. Bu'r sefydliad yn cydweithio'n agos gyda Swyddfa'r Cabinet a rhanddeiliaid allweddol yn genedlaethol ac yn lleol i helpu i drefnu'r fframwaith, y prosesau a'r cynnwys ar gyfer rhaglen lawn y Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol a lanswyd yn 2013.
- 4.2 Mae Engage4Life wedi tyfu'n gyflym yn ystod y blynyddoedd hyn i aros gyfuwch â'r galw bythol gynyddol am y Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol, ac rydym wedi darparu'r profiad ar gyfer dros 5,000 o bobl ifanc ar draws Canolbarth, Gorllewin a De-Orllewin Lloegr.
- 4.3 Ar ôl proses o gynnig am y contract i ddarparu rhaglen beilot NCS yng Nghymru, dyfarnwyd y contract i Engage4Life ac fe gynhaliwyd rhaglen beilot NCS yng Nghymru yn ystod hydref 2014. Roedd gan Engage4Life 4 blynedd o wersi a phrofiad o NCS ac roedd gan y sefydliad hefyd gysylltiad Cymreig gan ei fod wedi ymwneud â meysydd ymgysylltu ieuenctid, addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Roedd hyn yn eu galluogi i ddefnyddio'r model gwreiddiol, gan hefyd geisio datblygu'r model a'i drefnu yn ôl y cyd-destun a'r sefyllfa yng Nghymru. Cymerodd tri chant chwedeg â thri o bobl ifanc ran yn rhaglen beilot NCS yng Nghymru gyda chyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu er mwyn gallu derbyn y niferoedd ychwanegol.
- 4.4 Cafodd cwmpas y rhaglen beilot ei leihau o fod yn rhaglen dros Gymru gyfan i fod yn un a oedd yn canolbwyntio ar 4 rhanbarth, sef Caerdydd a Bro Morgannwg, Caerfyrddin, Rhondda Cynon Taf ac

Abertawe a Chwm Tawe. Roedd adroddiad gwerthuso Engage4Life eu hunain yn nodi mai'r prif ffactorau a arweiniodd at hyn oedd:

- 4.5 Roedd yr amser dirwyn byr rhwng dyfarnu'r contract ar gyfer y rhaglen beilot a darparu'r rhaglen yn golygu bod angen canolbwyntio adnoddau ac amser mewn rhanbarthau allweddol i sicrhau bod profiad NCS o safon uchel yn cael ei gynnig.
- 4.6 Nid oedd modd gwireddu cynlluniau gwreiddiol i ddefnyddio darparwr trwy drefniant is-gontractio yng Ngogledd Cymru oherwydd: yr amser a oedd yn ofynnol i gychwyn y bartneriaeth, cwblhau diwydrwydd dyladwy, a hyfforddi eu staff fel y gellid sicrhau profiad a oedd o safon uchel, yn ddiogel ac yn cydymffurfio.
- 4.7 Yn ystod cyfnod y rhaglen beilot roedd ffenestr o 4 wythnos pan oedd pobl ifanc mewn ysgolion gan fod y mwyafrif o'r cyfnod dros wyliau'r haf. Er mwyn cael mynediad at y nifer angenrheidiol o ysgolion i ddarparu digwyddiadau recriwtio gan sicrhau bod ein trefniadau'n cyd-fynd ag anghenion ac amserlenni'r ysgolion yn y cyfnod prysur ym mis Medi bu'n rhaid cyfyngu ar y cwrpas o ran yr ardal a fyddai'n cael ei gwasanaethu.
- 4.8 Fe recriwtiodd Engage4Life reolwr partneriaethau profiadol oedd â rhwydweithiau presennol yn y sector addysg yng Nghymru. Rhoddodd hyn fynediad at y fforymau Penaethiaid yn Abertawe, Caerdydd a Rhondda Cynon Taf, gan ei gwneud yn bosibl cael mynediad at Benaethiaid a ddetholwyd yn strategol ac yr oedd eu cefnogaeth yn rhoi'r cyrhaeddiad yr oedd ei angen yn y ffenestr fer o 4 wythnos a oedd yn cael ei chaniatáu ar gyfer recriwtio ar gyfer y rhaglen beilot.

*“Already having this buy in from schools meant that the logical approach was to focus on these as our main recruitment source, an approach which we know from experience is very successful, and also scalable. Utilising a wide range of schools which represented a fair cross-section of the Welsh demographic allowed us to ensure that the programme was promoted to young people from a range of backgrounds, in keeping with the NCS core ethos. The range of schools we worked with included high achieving schools*

*such as Olchfa in Swansea. Fitzalan High in Cardiff is Wales' most multi-cultural school. Barry Boys and Pentrehafod Community School are examples from Community First areas; and Coleg Sir Gar is a Welsh language school.....We identified a number of organisations within Wales who would be able to provide referrals of numbers of young people from specific categories, such as:*

*The Urdd – Welsh speakers*

*Communities First – young people from deprived backgrounds*

*SEN schools – young people with disabilities*

*The short duration of the pilot project meant that we did not have the time to set up the partnerships with all of these organisations, and allow them time to get the internal processes in place following the summer holiday season. If we were to deliver a full version of the programme then we would build on the groundwork already made to do so. An example of the beginnings of such a relationship is the work we did with Communities First in RCT, who supplied 32 young people for the programme". Prosiect Peilot NCS yng Nghymru Engage4Life, Hydref 2014, Adroddiad Gwerthuso*

- 4.9 Bu'r uwch dîm arwain yn Engage4Life yn gweithio gyda phedwar rheolwr rhaglenni profiadol o Loegr i lunio'r cwricwlwm a chynllun gweithredu prosiect manwl ar gyfer darparu.
- 4.10 Y model darparu ar gyfer NCS yng Nghymru, yn seiliedig ar brofiad blaenorol, oedd Arweinydd Tîm ar gyfer pob tîm a hwnnw'n cael ei gefnogi gan ddau Gynorthwydd, a oedd yn cynnwys gwirfoddolwyr a rhai aelodau o staff cyflogedig. Yn ystod y cam preswyl i ffwrdd o'r ardal leol roedd un aelod ychwanegol o staff yn cael ei ddarparu ar gyfer y tîm gan y ganolfan weithgareddau, a oedd wedi bod trwy'r hyfforddiant ar ethos NCS. Roedd hyn yn darparu cymhareb staffio o 4:15 yn ystod y cam preswyl i ffwrdd o'r ardal leol, a 3:15 ar gyfer gweddill y rhaglen.





Ffigur 2: Camau o ran darparu NCS a'r ymwneud gan sefydliadau ymgysylltu a gwirfoddoli ieuenctid yng Nghymru

4.11 Defnyddiodd Engage4Life eu profiad o ddarparu rhaglen NCS yn Lloegr i gynllunio'r prosiect, gan ddilyn y pedwar cam craidd a oedd wedi'u nodi yng nghontract NCS:

4.12 Cam 1: Wythnos Breswyl i Ffwrdd o'r Ardal Leol

Y cam preswyl i ffwrdd o'r ardal leol yw'r adeg pan fo cyfranogwyr yn cael gwared ar rwystrau, yn gwneud ffrindiau newydd, yn dysgu sgiliau arwain a gwaith tîm ac yn datblygu eu hyder. Gan ddefnyddio'r bartneriaeth a oedd yn bodoli'n barod gyda'r Urdd, defnyddiwyd eu canolfan weithgareddau yn Llangrannog ar gyfer darparu cam 1. A hwythau wedi bod yn bartner yn y gwaith o ddarparu'r rhaglen yn Lloegr, roedd y staff yn Llangrannog wedi cael yr hyfforddiant ar ethos NCS.

#### 4.13 Cam 2: Diwrnodau Sgiliau Cymunedol a Chynllunio

##### Diwrnod 1: Ymgysylltu â'r Gymuned

Roedd ffocws y diwrnod ar Ymgysylltu â'r Gymuned: deall pwysigrwydd ymgysylltu â'r gymuned, a datblygu dealltwriaeth ehangach am y bobl ynddi. Daethpwyd â'r cyfranogwyr o Gaerfyrddin ac Abertawe i Stadiwm Liberty ar gyfer y rhan hon o'r ddarpariaeth. Aethpwyd â'r rhai o Gaerdydd a Rhondda Cynon Taf i Ganolfan Mileniwm Cymru.

Trefnodd Engage4Life nifer o siaradwyr i siarad gyda'r cyfranogwyr am eu rolau, a sut yr oeddent yn cyfrannu at y gymuned ehangach. Roedd y siaradwyr hyn yn cynnwys gwleidyddion, perchnogion busnesau lleol, Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, pêl-droedwyr yn Uwch Gynghrair Lloegr, sêr rygbi rhyngwladol a mabolgampwyr Olympaidd.

Yna defnyddiodd Engage4Life dasg y maent wedi'i datblygu sy'n annog pobl ifanc i ymgysylltu â thrawstoriad llwyr o'r cyhoedd, a elwir yn bingo cymunedol. Fel rhan o'r dasg hon mae'r cyfranogwyr yn siarad gyda phobl am eu teimladau ynglŷn â'r gymuned, beth yw'r materion sydd o bwys yn eu tyb hwy, a beth hoffent ei newid.

Roedd Cam 2 yn ymwneud â chynnig profiadau newydd, er enghraifft fe drefnodd Engage4Life fod pob cyfranogwr yn cael ei wers yrru gyntaf.

##### Diwrnod 2: Cynhadledd NCS

Mae datblygu sgiliau bywyd defnyddiol yn elfen allweddol o'r cam hwn o'r rhaglen, ac un sgil y bydd ar lawer ei angen yn ddiweddarach yn eu hoes yw mynychu cynadleddau. Felly fe dreialodd Engage4Life gynhadledd gyntaf NCS, gan roi'r cyfranogwyr mewn sefyllfa anghyfarwydd, eu herio a datblygu dealltwriaeth am sut i ymddwyn mewn amgylchedd o'r fath. Er mwyn sicrhau bod y digwyddiad yn eu hysbrydoli, defnyddiodd Engage4Life Westy Hamdden y Celtic Manor yng Nghasnewydd, un o'r lleoliadau mwyaf blaenllaw yn y byd.

Aeth Engage4Life ati i geisio sicrhau siaradwyr o safon fyd-eang er mwyn cymell ac ysbrydoli'r bobl ifanc go iawn ac roeddent hefyd am gadw cyd-destun Cymreig y rhaglen, felly fe ganolbwyntion nhw ar bobl o Gymru a oedd wedi dod yn llwyddiannus iawn, a hwythau wedi wynebu helbulon yn gynnar yn eu bywydau. Sicrhaodd Engage4Life yr Athro Meirion Thomas, llawfeddyg canser sy'n flaenllaw yn fyd-eang, a'r Athro Marc Clement, ffisegydd sy'n flaenllaw yn fyd-eang, ac yn arbenigwr mewn technoleg laser. I ategu'r rhain, fe glywon nhw hefyd gan entrepreneur ifanc, Joe Hodges, a siaradodd am ddatblygu busnes o syniad a oedd yn seiliedig ar helpu pobl anabl.

### Diwrnod 3: Diwrnod Ysbrydoli

Darparodd Engage4Life Ddiwrnod Ysbrydoli, gan ddefnyddio Stadiwm y Mileniwm. Roedd ffocws ar Iechyd a Lles, gyda Cymunedau yn Gyntaf yn rhedeg cyfres o weithdai i'r bobl ifanc a oedd yn canolbwyntio ar fyw'n iach, a He41 (a sefydlwyd gan grŵp o raddedigion y Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol) yn rhedeg gweithdai ar iechyd meddwl da. Trwy Farchnad y Trydydd Sector cafodd y cyfranogwyr gyfle hefyd i ymgysylltu ag ystod o sefydliadau, dod i wybod am yr hyn y maent yn ei wneud, a sut y gallent hwy chwarae rhan i wneud gwahaniaeth. Roedd y sefydliadau'n cynnwys GwirVol, Macmillan a Dim Smygu Cymru, gyda nifer o dimau'n penderfynu codi arian ar gyfer Macmillan fel eu prosiectau gweithredu cymdeithasol.

Cynhaliwyd gweithdai pellach a oedd yn canolbwyntio ar ysbrydoli talent yn y bobl ifanc, gan gynnwys un gan Music Klub i addysgu'r cyfranogwyr sut i gyfansoddi a chynhyrchu cerddoriaeth.

Cafwyd areithiau gan ystod o siaradwyr symbylol – arwyr rygbi Cymru Phil Davies a Clive Rowlands a'r cyfarwyddwr ffilmiau John Michelle.

Gorffennodd y diwrnod â digwyddiad dathlu ar gyfer y bobl ifanc er mwyn cydnabod yr hyn yr oeddent wedi'i gyflawni'n barod, ac i'w cyffroi ynghylch y syniad o wneud gwahaniaeth yn eu cymunedau. Darparwyd y gerddoriaeth gan gyfranogwyr a oedd wedi dangos dawn gerddorol

yn ystod y rhaglen, a rhai graddedigion talentog o'r rhaglen yn Lloegr a ddaeth draw i fod yn rhan o'r diwrnod.

#### 4.14 Cam 3: Gweithredu Cymdeithasol

Dyma'r rhan o'r rhaglen lle mae'r bobl ifanc yn cael y cyfle i roi rhywbeth yn ôl i'w cymunedau, a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i achos sydd o bwys iddynt. Dechreuodd Cam 3 â gweithdy cychwynnol gan staff ar bob agwedd allweddol ar redeg prosiect gweithredu cymdeithasol.

Mae enghreifftiau o brosiectau gweithredu cymdeithasol yn ystod Rhaglen Beilot NCS yng Nghymru yn 2014 yn cynnwys y canlynol:

- Roedd un o'r grwpiau o Gaerfyrddin yn dymuno rhedeg prosiect gweithredu cymdeithasol cyfrwng Cymraeg, a oedd wedi'i fwriadu i geisio codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Er mwyn gwneud hynny fe gyflawnon nhw brosiect o'r enw Llais the Voice. Roedd ffocws y prosiect ar ddigwyddiad lle gwahoddwyd pobl i ddysgu mwy am y Gymraeg a diwylliant Cymru ym Mharc y Scarlets yn Llanelli. I godi ymwybyddiaeth o hyn llwyddodd y tîm i gael eu gwahodd i ymddangos ar y rhaglen deledu boblogaidd Heno ar S4C i siarad am NCS, ac am y digwyddiad. Roedd y digwyddiad yn cynnwys bwyd o Gymru a cherddoriaeth a barddoniaeth Gymraeg.
- Roedd tîm arall o Gaerdydd yn dymuno codi arian tuag at Elusen Canser Plant Latch a Mind Caerdydd, ac fe benderfynon nhw gynnal digwyddiad Mardi Gras yng ngwesty'r Hilton yng Nghaerdydd. Rhan bwysig o'r digwyddiad oedd sioe ffasiynau, a llwyddodd y tîm i berswadio Matalan i ddarparu'r holl ddillad ar gyfer y sioe hon yn rhad ac am ddim, a oedd yn gamp aruthrol. Cododd y digwyddiad bron i £500 ar gyfer yr achosion a ddewiswyd.

#### 4.15 Cam 4: Digwyddiad Graddio ac Ymgysylltu'n Barhaus

Dewiswyd Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe ar gyfer Seremoni Raddio NCS Cymru. Cynhaliwyd un digwyddiad dathlu mawr ar gyfer yr holl gyfranogwyr yn rhaglen beilot NCS yng Nghymru.

Roedd Engage4Life yn teimlo bod hyn yn rhoi mwy o ymdeimlad o fod yn rhan o fudiad, ac yn rhan o gymuned fwy. Roedd hefyd yn fwy cost-effeithiol. Darparwyd cludiant i ac o'r lleoliad i sicrhau bod yr holl gyfranogwyr yn gallu bod yn bresennol.

Elfen allweddol oedd dathlu cyflawniadau'r cyfranogwyr. Defnyddiodd Engage4Life y wal fideo fawr i ddangos cyfres o ddelweddau o'r gwahanol gamau yn ystod y rhaglen, i ddangos i'r bobl ifanc mor bell yr oeddent wedi dod, a beth oeddent wedi'i gyflawni. Rhoddwyd cyflwyniad â ffocws mwy pendant yn ystod y digwyddiad i amlygu llwyddiannau prosiectau gweithredu cymdeithasol pob tîm, wrth iddynt ddod i'r llwyfan wedyn i gasglu eu tystysgrifau.

Mae Engage4Life yn ystyried mai'r digwyddiad dathlu yw pwynt mynediad y cyfranogwyr i wirfoddoli pellach, gyda chyfleoedd ar gyfer graddedigion yn cael eu hyrwyddo'n weithredol, o fewn Engage4Life ac yn allanol gyda'u partneriaid. Cyflawnir hyn trwy wal cyfleoedd yn y digwyddiad, a'r gallu i gyfranogwyr gofrestru tra'u bod ar y safle. Caiff y bobl ifanc eu cyfeirio hefyd at yr adran Graddedigion ar eu gwefan i gyfranogi yn eu rhaglen NCS+. Trwy eu rhaglen NCS+ i Raddedigion mae Engage4Life wedyn yn cynnig ystod o gyfleoedd i raddedigion barhau i ymwneud â gweithredu cymdeithasol.

Canfu gwerthusiad Prifysgol Abertawe fod y rhaglen fel y'i darparwyd yn mapio'n gywir yn erbyn y Model a oedd wedi'i ddiffinio yn y Fanyleb ar gyfer Rhaglen Beilot NCS yng Nghymru, gan fod pob un o'r Camau a gyflawnwyd wedi darparu'r gweithgareddau a oedd wedi'u nodi. Fodd bynnag, fel a ddisgrifir mewn manylder yn adran 5 (ymchwil Llywodraeth Cymru) roedd rhanddeiliaid yn teimlo nad oedd y ffordd y cafodd rhaglen beilot NCS ei darparu yng Nghymru'n bodloni'r meini prawf gwreiddiol a oedd wedi'u nodi ym manyleb Swyddfa'r Cabinet.

Mynychodd cynrychiolwyr Ymddiriedolaeth NCS y Rhaglen wrth iddi gael ei darparu, gan ymgysylltu â chyfranogwyr, sefydliadau partner a'r Darparwr. Roedd eu hadborth yn gadarnhaol iawn, ac yn gyson â'r profiadau cadarnhaol o raglenni blaenorol. Fe wnaeth cyfweiliadau pellach gydag uwch gynrychiolwyr Ymddiriedolaeth NCS bwysleisio'r awydd a'r ymdrechion parhaus i integreiddio'n fwyfwy â mentrau ar lefel y DU gyfan megis Gwobr Dug Caeredin ac Ymddiriedolaeth y Tywysog, a fyddai'n cael eu hategu'n dda trwy gydweithio â mentrau yng Nghymru gan gynnwys y rhai a drafodwyd yn adran 3.

## 5. Canfyddiadau

- 5.1 Caiff canlyniadau'r dadansoddiad o'r cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid eu cyflwyno yn yr adran ganlynol. Er bod y sampl yn fach, cafodd ei samplu'n bwrpasol i sicrhau bod yr ymchwil yn cwmpasu barn cynrychiolwyr lefel uchel mewn llawer o'r sefydliadau allweddol ym maes gwaith ieuencid a gwirfoddoli ieuencid sy'n gweithio ledled Cymru.
- 5.2 Er mwyn darparu cyd-destun cefndirol o ran yr amgylchedd y mae'r rhanddeiliaid yn y sampl yn gweithredu ynddo, gofynnwyd i'r ymatebwyr pa heriau yr oedd eu sefydliadau'n wynebu ar y pryd. Siaradodd ymatebwyr am heriau eu sefydliad eu hunain yn bennaf, ond siaradodd sawl sefydliad hefyd ar ran eu haelodau. Daeth tair her allweddol i'r amlwg dro ar ôl tro – cyllid, capasiti ac ad-drefnu Awdurdodau Lleol. Mae'r tair her yma wedi'u cydgysylltu â'i gilydd a chânt eu dwysau gan yr hyn a ddisgrifiwyd gan un sefydliad fel 'storm berffaith' o ran galw sy'n mynd yn fwy ac yn fwy ac adnoddau sy'n mynd yn llai ac yn llai. Mae crebachiad y cyllid a'r adnoddau'n bygwth parhad gwasanaethau a rhaglenni a'r gallu i flaengynllunio. Hyd yn oed lle mae'r cyllid yn gymharol sefydlog, ac er bod nifer o sefydliadau wedi dweud eu bod yn "ffodus iawn i gael cymorth gan Lywodraeth Cymru", mae capasiti i ddarparu'n broblem i lawer o sefydliadau, neu sefydliadau y maent yn gweithio mewn partneriaeth gyda hwy. Mae toriadau i gyllid Awdurdodau Lleol yn rhoi pwysau ychwanegol ar y Trydydd Sector ac mae ansicrwydd diweddar ynghylch ad-drefnu Awdurdodau Lleol yng Nghymru wedi ychwanegu haen arall o bryder ynghylch argaeledd cyllid a'r modd y caiff ei ddosbarthu a'r effeithiau y bydd hynny'n eu cael ar ddarpariaeth gwasanaethau ieuencid awdurdodau lleol.

*"We had an independent evaluation.....in 2010, they basically said that funding cuts had risked a number of our interventions becoming tokenistic, and whilst that hasn't as yet happened, we do feel that we're very much in danger of that with further funding cuts. It does stifle some of the forward*

*thinking that you have, that some of the larger projects, the more in-depth, individual work that you'd like to do with the harder to reach young people, it's about resource and funding".*

### **Lefelau ymgysylltu â NCS**

**5.3 Datgelodd y cyfweiliadau fod y lefelau o ran ymgysylltu â rhaglen beilot NCS ac ymwybyddiaeth ohoni'n amrywio ymhlith y rhai y cyfwelwyd â hwy ar sbectrwm o'r rhai a oedd wedi bod yn ymwybodol o raglen NCS ers yn gynnar yn y broses o drafod ei threialu yng Nghymru i'r rhai a oedd wedi dod yn ymwybodol yn fuan iawn cyn neu ar adeg dechrau ei darparu. Dim ond tri o'r sefydliadau rhanddeiliaid oedd wedi chwarae rhan weithredol yn y broses o ddarparu rhaglen NCS. Nid oedd rhanddeiliaid yn teimlo bod y rhaglen wedi ymgysylltu'n ddigonol â hwy.**

5.4 Y rhanddeiliaid a wahoddwyd i gyfranogi yn y gwerthusiad oedd y rhai a oedd o bosibl wedi cymryd rhan yn rhaglen beilot NCS yng Nghymru yn eu cymhwyster fel sefydliadau cymorth cymunedol, gwaith ieuenctid a gwirfoddoli yng Nghymru. Mae nifer o'r sefydliadau y cyfwelwyd â hwy'n aelodau o bartneriaeth GwirVol. Cyfwelwyd â nifer o rhanddeiliaid mewnol yn Llywodraeth Cymru hefyd. Gofynnwyd i rhanddeiliaid drafod lefelau eu hymwybyddiaeth o raglen beilot y Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol yng Nghymru a'u hymgysylltiad â hi. Roedd manyleb dendro Swyddfa'r Cabinet ar gyfer y contract i ddarparu NCS yng Nghymru'n nodi bod angen i Ymgeiswyr allu dangos gwybodaeth gadarn am nodweddion economaidd-gymdeithasol Cymru, tirwedd y sector ieuenctid, addysg a gwirfoddoli yng Nghymru a gallu dangos ymagwedd bartneriaeth gref, gan wneud defnydd o'r sectorau cyhoeddus a phreifat a'r Trydydd Sector yng Nghymru a chydweithio â hwy i gyflwyno'r rhaglen a ddymunid. Byddai disgwyl i ymgeiswyr feithrin cysylltiadau cryf â rhaglenni Llywodraeth Cymru gan gynnwys Cymunedau yn Gyntaf, GwirVol a Bagloriaeth Cymru. Fe wnaeth cyfweiliadau gydag ystod eang o'r cyrff hynny fel rhan o'r gwerthusiad hwn ddangos i ba raddau yr oedd hyn wedi digwydd ac felly pa mor lwyddiannus yr



oedd sefydliadau allweddol yng Nghymru wedi cael eu cynnwys yn y broses gan yr asiantaeth a gafodd y contract i ddarparu rhaglen beilot NCS yng Nghymru.

- 5.5 Roedd y lefelau o ran ymgysylltu â rhaglen beilot NCS ac ymwybyddiaeth ohoni'n amrywio ymhlith y rhai y cyfwelwyd â hwy ar sbectrwm o'r rhai a oedd wedi bod yn ymwybodol o raglen NCS ers yn gynnar yn y broses o drafod ei threialu yng Nghymru i'r rhai a oedd wedi dod yn ymwybodol yn fuan iawn cyn neu ar adeg dechrau ei darparu. Roedd nifer o aelodau o bartneriaeth GwirVol wedi bod yn rhan o gynnyg aflwyddiannus gan gonsortiwam am y contract i ddarparu, ac felly roedd ganddynt lefelau uwch o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am y rhaglen beilot nag eraill. Roedd lefelau'r ymwybyddiaeth o raglen NCS yng Nghymru'n arbennig o isel ymhlith y Cynghorau Gwirfoddol Sirol. O chwe Chyngor Gwirfoddol Sirol a wahoddwyd i gyfranogi yn y gwerthusiad, gwrthododd pedwar (gyda dau ohonynt yn datgan yn eglur nad oeddent yn gwybod unrhyw beth am NCS). Ymwybyddiaeth gyfyngedig oedd gan y ddau a gafodd gyfweiliadau ac nid oeddent wedi ymgysylltu o gwbl â'r rhaglen beilot.

*“We found out that there was an event in ..... the day after it had taken place, because one of the participants in it rang us the following day and said that they were surprised that we weren't there, we had been left off the mailing list. I contacted the person who I got as an organising contact and said that we were surprised that as a volunteering service that we hadn't been informed or invited ..... They apologised and just said they didn't have our details and didn't quite understand how things worked, and said they would engage with us later on, but in fact that didn't happen”.*

- 5.6 O'r 14 o randdeiliaid y cyfwelwyd â hwy, dim ond 3 a oedd wedi ymwneud yn weithredol â darparu NCS naill ai trwy berthynas fasnachol neu ymwneud uniongyrchol gan weithwyr ieuenctid.
- 5.7 Un thema allweddol a ddaeth i'r amlwg mewn perthynas ag ymgysylltu â rhaglen beilot NCS yng Nghymru ac ymwybyddiaeth ohoni oedd teimlad ymhlith rhanddeiliaid nad oedd y rhaglen wedi

ymgysylltu'n 'ddigonol' â hwy. Roedd rhywfaint o siom a rhwystredigaeth ymhlith sefydliadau a oedd yn teimlo, a hwythau wedi bod yn rhan o drafodaethau ynghylch rhaglen beilot NCS yng Nghymru o'r dechrau, bod yr ymgysylltiad gwirioneddol â'r rhaglen beilot unwaith yr oedd yn cael ei darparu'n gyfyngedig neu nad oedd yn bodoli o gwbl. Un neges glir oedd bod y sefydliadau hyn yn awyddus iawn i fod yn rhan o gefnogi rhaglen beilot NCS yng Nghymru mewn nifer o ffyrdd cadarnhaol – boed trwy recriwtio, cyfeirio, bod yn rhan o'r elfen cyfranogi yn y gymuned neu fynychu digwyddiadau – ond mai cyfleoedd cyfyngedig oedd iddynt wneud hynny. Fe arweiniodd hyn at rwystredigaeth nad oedd y rhaglen beilot wedi manteisio ar y capasiti sy'n bodoli yng Nghymru i gefnogi rhaglen fel NCS. Roedd nifer o sefydliadau'n teimlo nad oeddent wedi cael digon o amser i ymgysylltu'n effeithiol â'r prosiect; fodd bynnag, roeddent yn deall y ffaith bod cyflymder y broses o roi'r prosiect ar waith wedi bod yn broblem o ran ei gwneud yn bosibl i ymgysylltiad digonol dros Gymru gyfan ddigwydd. Roedd teimlad bod y sefydliad darparu, Engage4Life, heb gwrdd â'u dyheadau gwreiddiol i ymgysylltu â phartneriaid allanol.

- 5.8 Canfu gwerthusiad Prifysgol Abertawe hefyd fod y gofynion o ran integreiddio â mentrau allweddol gan Lywodraeth Cymru yn gryn her, a chanfu mai oherwydd y graddfeydd amser yr oedd hyn.

*“In terms of the organisation and their delivery of the programme, that I think didn't quite meet the aspirations that the delivery organisations had to engage with external partners”.*

*“I think it would've been very beneficial for Engage4Life to have spent some time when they got the agreement to make contact with some of the existing bodies and build bridges and build up the PR around what needed to be achieved. What I was expecting was, because we emailed people to say what we could do, that Engage4Life would've contacted us on several levels. In terms of the amount of time we had to turn that around we couldn't attend it, and that was a shame because we wanted to grasp any opportunities that there were to get involved”.*

*“..... that may be to do with the speed at which it had to go last year, which is unfortunate to say the least”.*

### **Recriwtio pobl ifanc i raglen beilot NCS**

#### **5.9 Datgelodd cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid gyfleoedd a gollwyd o ran recriwtio pobl ifanc i'r rhaglen beilot.**

5.10 Nododd nifer o sefydliadau eu bod wedi disgwyl y byddent yn cefnogi rhaglen beilot NCS trwy helpu gyda gwaith recriwtio, naill ai trwy gyfeirio pobl ifanc at y rhaglen neu drwy recriwtio pobl ifanc yn uniongyrchol. Roedd manyleb Swyddfa'r Cabinet yn nodi'n glir bod disgwyl i ymgeiswyr arddangos perthynas waith gref gyda mudiadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc yng Nghymru er mwyn recriwtio'n llwyddiannus. Fel yr oedd hi, er gwaethaf y disgwyliadau, ni ddigwyddodd hyn a chafodd yr holl bobl ifanc eu recriwtio trwy ysgolion a cholegau. Roedd teimlad o siom ac o gyfle wedi'i gollu ymhlith cyfweleion.

*“The partnership itself informed us that the delivery partner was going to consult with all of us individually about what the requirements would be for the young people to take part. It was hoped then that they would be looking to recruit young people who wouldn't have the opportunity to go on something like NCS without the involvement of these partner organisations that work with GwirVol..... Two or three weeks before the programme was due to kick off it was confirmed that all of the recruitment had been done via schools providing the opportunity only to young people who were already engaged in mainstream education”.*

*“Not with the actual delivery, I didn't see any promotional materials for it, I wasn't contacted directly by Engage4Life directly about promoting it with our...because we've obviously got access to 20,000 young people, none of that information came through to me”.*

- 5.11 Daeth y thema o ran y siom mai dim ond mewn ysgolion a cholegau y cafodd cyfranogwyr eu recriwtio i'r amlwg nifer o weithiau trwy'r cyfweiliadau, yn enwedig wrth drafod sut yr hoffai sefydliadau gael eu cynnwys mewn unrhyw ddarpariaeth NCS bosibl yng Nghymru yn y dyfodol a pha un a oedd rhaglen beilot NCS yng Nghymru wedi cyrraedd ei nodau a chyflawni ei hamcanion gwreiddiol ai peidio. Nodwyd y mater o ran y cyfleoedd a gollwyd i ymgysylltu â'r sector yn ei gyfanrwydd a darparu mewn amgylchedd ar wahân i ysgolion a chartrefi trwy recriwtio mewn ysgolion a chartrefi yn unig.

### **Argraffiadau cyffredinol o NCS**

- 5.12 **Roedd yr holl randdeiliaid yn cytuno gyda'r rhagosodiad sylfaenol bod y Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol yn 'syniad da' ac roedd cryn deimlad cadarnhaol ynghylch nodau ac amcanion canolog y rhaglen. Roedd barn y rhanddeiliaid ynglŷn â'r modd yr oedd rhaglen NCS wedi cael ei rhoi ar waith yng Nghymru a'i haddasrwydd fel rhaglen i Gymru'n llai cadarnhaol.**
- 5.13 Gofynnwyd i ymatebwyr fyfyrion benodol ar eu hargraffiadau cyffredinol o raglen beilot NCS yng Nghymru; daeth ystyriaethau o'r fath i'r amlwg trwy gwestiynau eraill yn ystod y cyfweiliadau hefyd. Nid oedd yr un o'r ymatebwyr yn anghytuno gyda'r rhagosodiad sylfaenol bod y Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol yn 'syniad da' ac roedd cryn deimlad cadarnhaol ynghylch nodau ac amcanion canolog y rhaglen. Nododd ymatebwyr bod y rhaglen yn 'beth da i'w gael' a bod 'potensial ar gyfer rhaglen fel NCS' ac roeddent yn gallu gweld y gallai ddwyn budd i bobl ifanc yng Nghymru.

*"It has the potential to contribute an awful lot, to offer a lot of young people the next step onto something else that they may otherwise not have gained".*

- 5.14 Nododd rhai ymatebwyr fod rhaglen beilot NCS wedi llwyddo i greu 'bwrlwm' ac annog pobl ifanc i ymgysylltu, h.y. mae'r brand yn ddeniadol.
- 5.15 Canfu ymchwil Prifysgol Abertawe fod gan randdeiliaid ar draws sefydliadau ieuencid a gweithredu cymdeithasol farn gadarnhaol am

nodau ac ethos NCS, gan gydnabod bod uchelgeisiau'r rhaglen yn mapio ar draws blaenoriaethau cyffredin gan gynnwys ymgysylltu ieuencid a datblygu cymunedol.

- 5.16 Dylanwadwyd ar farn rhanddeiliaid am y modd yr oedd rhaglen NCS wedi cael ei rhoi ar waith yng Nghymru a'i haddasrwydd fel rhaglen i Gymru gan eu hargraffiadau o'r ffordd y cafodd ei rhoi ar waith – y graddfeydd amser byr a'r methiant i ymgysylltu'n ddigonol â sefydliadau yng Nghymru sydd wedi hen ennill eu plwyf fel sefydliadau sy'n darparu ac yn cefnogi gwaith ieuencid a gweithgarwch gwirfoddoli gan bobl ifanc yng Nghymru.
- 5.17 Un pryder arall a fynegwyd gan rai ymatebwyr oedd natur fyrhoedlog rhaglenni megis NCS yn ôl eu canfyddiad hwy. Mae ar bobl ifanc yng Nghymru sy'n rhan o waith ieuencid a gwirfoddoli angen cymorth hirdymor, yn enwedig y rhai a adnabuwyd fel y bobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed. Gallai hyn gyfyngu ar effeithiau cadarnhaol posibl y rhaglen a chreu perygl o adael pobl ifanc, yn niffyg camau dilynol strwythuredig a gwaith pellach i roi cymorth a chyfeirio at wasanaethau, yn fwy agored i niwed na phe na baent wedi ymgysylltu â'r rhaglen o gwbl. Amlygodd nifer o randdeiliaid bwysigrwydd cymorth hirdymor ar gyfer unrhyw raglen gwaith ieuencid.

*“...‘is it a boom you’re in there, it’s a big intervention, and then you’re kind of out of there’? For young people who need most support, for example those young people who might be regarded as at risk through the diagnostic tools around the Youth Engagement and Progression Framework, our concern would be that sort of intervention could be almost worse than useless”.*

## **Gorgyffwrdd rhwng NCS a gwaith ieuenctid a gweithgareddau gwirfoddoli ar hyn o bryd yng Nghymru**

5.18 **Un thema a oedd yn amlwg iawn o'r cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid oedd bod cryn dipyn o orgyffwrdd rhwng rhaglen beilot NCS a'r hyn sydd eisoes yn digwydd yng Nghymru. Nid oedd yn glir o'r cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid faint mae NCS yn ei gynnig yn ychwanegol at yr hyn sydd eisoes yn cael ei ddarparu yn y dirwedd gwaith ieuenctid a gwirfoddoli ieuenctid yng Nghymru.**

5.19 Mae nifer o bwyntiau sy'n gysylltiedig â'r thema hon:

- Yr angen i gydnabod y cyfoeth o waith ieuenctid a chyfleoedd gwirfoddoli sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru.

Mae'r cyflwyniad i'r adroddiad hwn yn amlygu peth yn unig o'r gwaith sy'n bodoli yn y sector gwirfoddol yng Nghymru ar hyn o bryd i gefnogi pobl ifanc. Ceir cryn dipyn o waith sy'n digwydd yn y sector statudol trwy ddarpariaeth Awdurdodau Lleol hefyd. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cwestiynu ble a sut y byddai rhaglen NCS yng Nghymru yn y dyfodol yn perthyn o fewn y ddarpariaeth bresennol ac yn rhybuddio yn erbyn mynd ati'n syml i "blannu" rhaglen 'o'r tu allan' yn yr amgylchedd yng Nghymru. Pe bai rhaglen NCS yn parhau yng Nghymru byddai angen iddi ddeall ac ystyried y ddarpariaeth a'r amodau presennol o ran gwaith ieuenctid yng Nghymru a gweithio gyda hwy. Cafodd hyn ei gydnabod yn gryf ym manyleb Swyddfa'r Cabinet ar gyfer y contract i ddarparu rhaglen beilot NCS; fodd bynnag mae'r dystiolaeth gan rhanddeiliaid yn awgrymu bod lefel dealltwriaeth sefydliadau sy'n gweithredu yn y maes hwn yng Nghymru a lefel yr ymgysylltu â hwy yn annigonol.

*"...it does feel a little bit like something is being planted on top of what is actually a very well established, diverse, vibrant youth service sector in Wales..... We have a very rich tapestry of organisations, of types of work of types of engagement for young people and it does feel a little bit like the NCS model is just put on top of it".*

- Y risg o gymhlethu tirwedd sydd eisoes wedi hen ymsefydlu, yn enwedig mewn perthynas â chynnig cyfleoedd gwirfoddoli.

Roedd nifer o ymatebwyr yn rhybuddio ynghylch y risg o greu cymhlethdodau, gyda gormod o sefydliadau a rhaglenni bellach yn cynnig cyfleoedd gwirfoddoli o ryw fath.

*“There is a danger of creating complications. Everyone now wants to have some kind of volunteering offer”.*

- Potensial y sefydliadau hynny yng Nghymru sydd eisoes yn bodoli i gyflawni unrhyw raglen NCS neu raglen debyg yn y dyfodol fel ymdrech ar y cyd.

Fe wnaeth pob un o'r sefydliadau y cyfwelwyd â hwy ddynodi eu parodrwydd i ymgysylltu â rhaglen NCS yng Nghymru yn y dyfodol, trwy ddarparu'n uniongyrchol neu fathau eraill o gymorth, megis recriwtio (gweler adran 5.9). Amlygodd y cyfweiliadau bwysigrwydd cydnabod y potensial sydd gan sefydliadau sy'n gweithredu yng Nghymru i ddarparu rhaglen NCS yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r sefydliadau hyn yn deall y dirwedd a'r fframweithiau strategol yng Nghymru ac mae ganddynt y profiad a'r sgiliau i ddarparu a chefnogi rhaglenni gwaith ieuencid. Roedd y rhan fwyaf o sefydliadau'n cydnabod y byddai gweithio ar eu pen eu hunain o bosibl yn golygu nad oes ganddynt yr adnoddau a'r capasiti i ddarparu NCS, ond roeddent yn barod iawn i weithio gyda sefydliadau eraill i ddarparu'r rhaglen naill ai fel consortiwm neu mewn ffordd gydgysylltiedig.

O'r dechrau un roedd yn aneglur beth fyddai NCS yn ei gynnig yn ychwanegol i'r dirwedd gwaith ieuencid a gwirfoddoli ieuencid yng Nghymru. Roedd manyleb Swyddfa'r Cabinet yn nodi y byddai disgwyl i raglen beilot NCS yng Nghymru greu cysylltiadau cryf â rhaglenni Llywodraeth Cymru gan gynnwys Cymunedau yn Gyntaf, GwirVol a Bagloriaeth Cymru, a chyda sefydliadau'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r Trydydd Sector yng Nghymru i ddarparu'r rhaglen a ddymunid. Fodd bynnag, heb ddarlun eglur o safle NCS yn y dirwedd bresennol mae'n ansicr pa ganlyniadau i bobl ifanc fyddai y tu hwnt i'r

hyn a allai gael ei gyflawni'n barod gan yr ystod o weithgareddau sy'n bodoli. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd o gyfweiliadau gyda rhanddeiliaid yn awgrymu nad yw'n glir beth yn ychwanegol fyddai rhaglen NCS yn ei gynnig yng Nghymru y tu hwnt i'r rhaglen o weithgareddau a gynigir yn barod gan y dirwedd o ran darpariaeth ieuencid sydd eisoes yn un brysur yng Nghymru.

- Y pryder y gallai ariannu rhaglen fel NCS fynd ag arian sydd eisoes wedi'i ymestyn i'r eithaf i ffwrdd oddi wrth y sefydliadau hynny sy'n darparu gwaith ieuencid a chyfleoedd gwirfoddoli yng Nghymru ar hyn o bryd.

Mynegodd ymatebwyr bryder bod rhaglen NCS yn ddrud, ac y gallai parhau â hi fynd ag adnoddau sydd eisoes yn gyfyngedig i ffwrdd oddi wrth y gwaith sy'n cael ei wneud yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae pob gweithgaredd o fewn y rhaglen o weithgareddau sy'n digwydd yng Nghymru yn arddangos elfennau o NCS ac yn cyd-fynd yn dda â nodau rhaglen NCS. Roedd consensws ymhlith yr ymatebwyr bod cryn dipyn o botensial (a mwy o effeithlonrwydd) i ddefnyddio adnoddau a ddyrennir i gynllun tebyg i NCS i ddarparu cynnyrch gwaith ieuencid cenedlaethol yng Nghymru trwy gydymdrech ar draws y sefydliadau gwaith ieuencid statudol a gwirfoddol. Galwodd nifer o sefydliadau am sefydlu brand Cymreig ar gyfer unrhyw raglen NCS yn y dyfodol. Cyfeiriodd ymatebwyr hefyd at gynaliadwyedd sefydlu darpariaeth NCS yn y dyfodol o fewn y rhwydweithiau presennol, gan ei gwneud yn bosibl i bobl ifanc gael cymorth hirdymor mwy cydgysylltiedig.

*"...as far as the programme itself and it's aims there is nothing wrong with it, it makes sense, but Wales is so small with so few bodies and so little money, there is a fear that if this is given the go ahead, is it going to effect the money that comes to other organisations.....we all have elements of the NCS programme so perhaps the Welsh Government's trick is to have one national youth work product - do we achieve the NCS but in a more sustainable way?"*



*“...it’s just making sure that it’s not squashing existing initiatives so that funding comes to an end and a new initiative like NCS comes out of the ashes. It’s about learning from what’s gone before and making sure you are incorporating the best from any programme that’s preceded it. Making sure that there is that connectivity with other programmes to avoid duplication and ensure you’re getting value for money.”*

*“I would see it as part of how youth work is delivered in Wales and I would hope that it would accept that there are already good models of well established youth work that already exists and it could just become part of that process.....the projects in themselves are fine, but they work far better if there is a joined up element to other programmes as well.”*

*“There are programmes that many of our members are running that certainly don’t cost a thousand pounds per young person. If that money could go that much further, I’m not suggesting that the programme is thrown out completely, I’m saying that there are elements of that programme that can be incorporated into the existing work of organisations and the money could be spread that much further.”*

- Yr angen i sicrhau bod cymorth hirdymor yn cael ei roi i bobl ifanc yng Nghymru.

Fel a nodwyd uchod roedd ymatebwyr yn teimlo y gallai rhaglen sydd wedi’i sefydlu fel rhan o’r ddarpariaeth bresennol yng Nghymru ddarparu llwyfan gwell i roi cymorth hirdymor ym maes datblygu ieuencid. Roedd yr angen am gymorth hirdymor i sicrhau bod pobl ifanc yn datblygu ar hyd siwrne gadarnhaol yn thema gyffredin trwy gydol y cyfweiliadau. Nid oedd ymatebwyr yn teimlo y byddai rhaglen ‘i mewn ac allan’ megis NCS mor fuddiol â chysylltu elfennau o’r ddarpariaeth bresennol yng Nghymru i roi cymorth hirdymor.

Mae hyn yn cysylltu â phwynt arall a godwyd gan nifer o ymatebwyr – y diffyg tystiolaeth hirdymor o effeithiau gwaith ieuencid a gwirfoddoli ar bobl ifanc. Mae’r mwyafrif o’r sefydliadau y cyfwelwyd â hwy yn gwerthuso eu rhaglenni ac yn casglu tystiolaeth o effeithiau eu

rhaglenni; ond maent yn cydnabod bod angen mwy o dystiolaeth, yn enwedig o effeithiau hirdymor.

Nododd nifer o ymatebwyr nad oeddent wedi gweld llawer o dystiolaeth o effeithiau rhaglen NCS. Gan nad yw rhaglen NCS wedi bod yn rhedeg am gyfnod digon hir i ddeall ei heffaith hirdymor mae'n anodd dweud beth fydd ei gwaddol. Ers ei sefydlu mae manteision NCS i bobl ifanc wedi cael eu mesur gan nifer o astudiaethau a gynhaliwyd gan y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol ac Ipsos MORI. Mae'r dangosyddion a gaiff eu mesur wedi aros yn gyson i raddau helaeth. Mae'r canfyddiadau o'r gwerthusiadau hyn yn dangos yr effaith a gafwyd tua 3 mis wedi i gyfranogwyr gwblhau NCS. Er mwyn asesu a yw NCS yn cael unrhyw effaith hirdymor bwriedir i arolygon dilynol pellach gael eu cynnal gyda chyfranogwyr NCS (a'u priod grwpiau safonol) tuag un, dwy a thair blynedd wedi iddynt gwblhau NCS.

- 5.20 Yr angen i sicrhau y byddai unrhyw raglen yn y dyfodol yn un â ffocws ar Gymru, ac yn mynd i'r afael yn effeithiol â darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.
- 5.21 Nododd nifer o sefydliadau eu bod yn ansicr faint o raglen beilot NCS yng Nghymru a ddarparwyd trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo'u bod wedi cael eu camarwain gan yr ymrwymadau gwreiddiol (gan Swyddfa'r Cabinet) i sicrhau darpariaeth ddwyieithog. Awgrymodd un ymatebydd fod dod â phobl ifanc Cymraeg a di-Gymraeg ynghyd yn agwedd bwysig ar raglen sy'n benodol i Gymru.

*"It needs to be ensured that whatever delivery is available is available through the medium of Welsh."*

#### **Y gorgyffyrddiadau posibl â Bagloriaeth Cymru yng Nghymru**

- 5.22 **Cyfeiriodd y mwyafrif o ymatebwyr, heb gael eu harwain, at Fagloriaeth Cymru yng Nghymru yn ystod eu cyfweiliad. Trafododd eraill y cymhwyster ar ôl cael eu harwain.**

- 5.23 Roedd ymatebwyr yn cydnabod bod llawer o debygrwydd rhwng rhaglen NCS a Bagloriaeth Cymru yng Nghymru, yn enwedig ar ei ffurf ddiwygiedig. Mae nodau allweddol NCS yn gyson iawn â'r elfen cyfranogi yn y gymuned o Fagloriaeth Cymru:
- datblygu ymwybyddiaeth o ystyr bod yn ddinesydd gweithredol a chyfrifol trwy helpu eraill;
  - rhoi cyfleoedd i ymgeiswyr gymryd rhan mewn cyfranogi'n weithredol yn y gymuned, na ellir ei wneud y tu ôl i ddesg;
  - ymwneud â'r byd real a'r gymuned ehangach, y tu allan i'r dosbarth;
  - annog ymgeiswyr i weithio mewn grwpiau.
- 5.24 Fe gwestiynodd nifer o ymatebwyr yr angen am raglen fel NCS pan fo Bagloriaeth Cymru yn mynd dros yr un tir i raddau helaeth. Roedd yr ymatebwyr hyn yn ystyried mai fersiwn Cymru o NCS oedd Bagloriaeth Cymru ac yn meddwl nad oedd gwir angen ychwanegu rhaglen ddrud a fyddai'n ailadrodd elfennau o Fagloriaeth Cymru i raddau helaeth.
- 5.25 Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr a drafododd Fagloriaeth Cymru yn cydnabod y gorgyffyrddiadau â NCS ond yn rhagweld rôl fwy synergyddol i'r ddwy raglen. Er bod llawer o debygrwydd rhwng Bagloriaeth Cymru a rhaglen NCS mae elfennau y gall NCS eu darparu nad yw Bagloriaeth Cymru yn eu darparu ac mae'r gwrthwyneb yn wir hefyd. Roedd ymatebwyr yn argymhell bod unrhyw raglen NCS yng Nghymru yn y dyfodol yn cael ei chysylltu'n agos â Bagloriaeth Cymru i gynyddu i'r eithaf fanteision y ddwy raglen ac i osgoi dyblygu. Mae achrediadau a thystiolaeth a geir trwy waith ieuencid a gwirfoddoli eisoes yn gallu cael eu defnyddio fel tystiolaeth ar gyfer Bagloriaeth Cymru, ond nododd ymatebwyr fod mwy o botensial byth i hyn ddigwydd. Fel a nodwyd yn flaenorol roedd ymatebwyr yn cydnabod y gallai rhaglen NCS yng Nghymru fod yn gydymdrech gyda nifer o wahanol sefydliadau, gan gynnwys Bagloriaeth Cymru, yn cyfuno i ddarparu arlwy gwaith ieuencid cenedlaethol ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru.

5.26 Ceir nifer o elfennau o NCS nad ydynt wedi'u cynnwys ym Magloriaeth Cymru. Er enghraifft, mae nod NCS i sicrhau cymysgedd cymdeithasol o gyfranogwyr er mwyn gwella'r ffordd y maent yn teimlo tuag at bobl o gefndiroedd gwahanol iddynt hwy'n anos i'w gyrraedd gan fod holl gyfranogwyr Bagloriaeth Cymru wedi'u lleoli mewn ysgol neu goleg. Nid yw Bagloriaeth Cymru yn cynnwys elfen breswyl. Tra dylai'r broses o recriwtio i raglen NCS amcanu at gyrraedd pobl ifanc nad ydynt eisoes mewn addysg na hyfforddiant, mae Bagloriaeth Cymru wedi'i bwriadu ar gyfer pobl ifanc sydd eisoes mewn addysg y gall fod ganddynt fynediad rhwyddach hefyd at arlwyon eraill o ran gwaith ieuencid a gwirfoddoli.

**A wnaeth rhaglen beilot NCS gyrraedd ei nodau a chyflawni ei hamcanion?**

5.27 **Y thema ganolog a ddaeth i'r amlwg oedd bod ymatebwyr yn teimlo bod y ffordd y cafodd rhaglen beilot NCS ei darparu yng Nghymru heb fodloni'r meini prawf gwreiddiol a nodwyd ym manyleb Swyddfa'r Cabinet.**

5.28 Gofynnwyd i randdeiliaid a oeddent yn meddwl bod Rhaglen Beilot NCS wedi cyflawni ei hamcanion. Nid oedd nifer o ymatebwyr yn teimlo'u bod yn gallu dweud a oedd rhaglen beilot NCS yng Nghymru wedi cyrraedd ei nodau a chyflawni ei hamcanion gan nad oeddent yn gwybod digon am y rhain a beth oeddent. Eglurodd eraill fod eu hymatebion yn seiliedig ar farn bersonol, safbwyntiau pobl y maent wedi siarad gyda hwy yn eu haelod-sefydliadau a thystiolaeth anecdotaidd. Gwnaeth sawl un y sylw nad oeddent wedi clywed unrhyw beth am ganlyniadau'r rhaglen beilot, ond y byddai diddordeb ganddynt mewn gweld gwybodaeth o'r fath.

5.29 Ni wnaeth y rhanddeiliaid y cyfwelwyd â hwy sylwadau penodol wrth ystyried a oedd cyfranogwyr wedi profi canlyniadau cadarnhaol o ran pontio i oedolaeth, sgiliau gwaith tîm, cyfathrebu ac arwain a chwarae rhan yn y gymuned. Fodd bynnag, nododd nifer ohonynt fod adborth ar lafar gan gyfranogwyr yn dynodi eu bod wedi mwynhau eu

profiadau, eu bod yn frwdfrydig ac wedi ymgysylltu'n gadarnhaol. Dim ond un ymatebydd a nododd ei fod yn teimlo bod hyder a dyheadau'r rhai a fynychodd y rhaglen wedi cael eu hybu.

*“The young people had fun; they had a fantastic time...”*

- 5.30 Nod cyffredinol rhaglen NCS yw dod â phobl ifanc o gefndiroedd gwahanol ynghyd i'w helpu i ddatblygu mwy o hyder, hunanymwybyddiaeth a chyfrifoldeb, gyda golwg ar greu cymdeithas sy'n fwy cydlynus, yn fwy cyfrifol ac yn cymryd rhan yn gynyddol.
- 5.31 Ei phedwar maes canlyniad yw cymysgu cymdeithasol, pontio i oedolaeth, sgiliau gwaith tîm, cyfathrebu ac arwain a chwarae rhan yn y gymuned. Mae angen gwahaniaethu rhwng nodau ac amcanion lefel uchel rhaglen NCS a'r nodau ac amcanion hynny a oedd wedi'u cynnwys ym manyleb Swyddfa'r Cabinet ar gyfer rhaglen beilot NCS yng Nghymru ynglŷn â sut y dylai'r rhaglen beilot gael ei darparu yng Nghymru. Mae'r meysydd canlyniadau yr un fath ar gyfer rhaglen beilot NCS yng Nghymru, ond ceir sawl elfen benodol yn y fanyleb ar gyfer Cymru a ddenodd sylwadau gan ymatebwyr. Y thema ganolog a ddaeth i'r amlwg oedd bod ymatebwyr yn teimlo nad oedd y ffordd y cafodd rhaglen beilot NCS ei darparu yng Nghymru wedi bodloni'r meini prawf gwreiddiol a oedd wedi'u nodi ym manyleb Swyddfa'r Cabinet. Y meysydd allweddol a bwysleisiwyd fel rhai lle teimlid bod anghysondeb rhwng y bwriad a'r canlyniadau oedd:
- Ymwneud gweithredol gan nifer o Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf â datblygu a darparu NCS yng Nghymru.
  - Bod y cymysgedd cymdeithasol yn cyflawni'r cydbwysedd cywir rhwng sicrhau cymysgedd daearyddol, economaidd a chymdeithasol mesuradwy y cyfranogwyr. Gofynnir i ymgeiswyr ystyried cymysgedd o ardaloedd trefol a gwledig, trefi a chefn gwlad a phentrefi llai dros Gymru gyfan.
  - Y dylai Ymgeiswyr arddangos perthynas waith gref gyda mudiadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc yng Nghymru er mwyn recriwtio'n llwyddiannus.

- 5.32 Cafodd rhaglen beilot NCS yng Nghymru ei darparu mewn Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn unig fel a nodwyd yn y fanyleb; fodd bynnag, dim ond yn Ne Cymru y cafodd ei darparu. Fe wnaeth y sefydliad darparu gynnwys gweithwyr ieuencid Cymunedau yn Gyntaf yn y broses o ddarparu'r rhaglen yn yr ardaloedd hyn, ond ni wnaethant recriwtio trwy Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Roedd cyfranogwyr yn yr ymchwil yn siomedig mai dim ond mewn ardaloedd trefol yn Ne Cymru y cafodd y rhaglen ei darparu. Roedd ymatebwyr hefyd yn ei chael yn anodd canfod sut y gallai'r elfen cymysgu cymdeithasol fod wedi cael ei chyflawni'n effeithiol o ystyried y cwmpas daearyddol cyfyngedig a'r ffocws ar Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Roedd nifer yn teimlo bod darparu rhaglenni o'r fath gyda ffocws ar bobl ifanc mewn ardaloedd difreintiedig yn unig yn golygu na ddigwyddodd y cymysgu cymdeithasol a ddymunid. Amlygwyd hefyd y gallai cymysgu pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio gydag eraill sy'n wynebu'r un risg a'r bobl hynny yn unig achosi dirywiad graddol. Roedd hyn hefyd yn golygu bod cyfle wedi cael ei gollu i weithio gydag eraill a fyddai'n cael budd mawr o raglen o'r fath ond nad ydynt yn byw mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.
- 5.33 Er bod y fanyleb yn nodi y dylai pobl ifanc gael eu recriwtio trwy ystod o sianelau yng Nghymru trwy weithio gyda sefydliadau presennol, ni ddigwyddodd hyn ac fe recriwtiwyd trwy ysgolion yn unig. Roedd teimlad bod hwn yn gyfle mawr a gollwyd i sicrhau cymysgedd cymdeithasol gwell, gan sicrhau bod y rhaglen yn cynnwys y rhai nad oedd ganddynt fynediad eisoes at gyfleoedd o'r fath, a sicrhau bod perthnasoedd yn cael eu meithrin gyda sefydliadau presennol yng Nghymru fel y gallai'r rhaglen beilot gael effaith fwy hirdymor o bosibl trwy waith parhaus i roi cymorth a chyfeirio at wasanaethau.

*"..... people do need to mix with each other. We can't go through life just having a programme for Communities First. There are some areas in Wales with poverty, with problems, but they don't come under the category of Communities First. Young people need to network and to know what's*

*available and get to know people outside their own areas. I think we need to give more attention to the meaning of 'social mix'.*

*"...other young people can also benefit enormously from youth work interventions ..... there is a bit of a risk that if young people in Wales who are at risk of disengagement are always in programmes and projects with other young people at risk of disengagement you risk creating a bit of a downward spiral. That isn't always the best way to raise aspirations. If you can bring young people from different backgrounds together it can make a huge difference to young people who have been more fortunate and more privileged because they can learn about the reality of life for other people, and it also raise the expectations and aspirations of young people who face more challenges".*

*"they didn't manage to link in to all of those other packages outside of school- so they came from school, did the programme, went back to school. Whereas if it had been a much wider ranging group of organisations that they'd engaged with some of those young people might have gone on to other interventions or support packages from where they'd come in from somewhere but might have been going on somewhere else afterwards. It might have had a bigger impact".*

- Bod angen i Ymgeiswyr allu dangos gwybodaeth gadarn am nodweddion economaidd-gymdeithasol Cymru, tirwedd y sector ieuencid, addysg a gwirfoddoli yng Nghymru a gallu dangos ymagwedd bartneriaeth gref, gan wneud defnydd o'r sectorau cyhoeddus a phreifat a'r Trydydd Sector yng Nghymru a chydweithio â hwy i gyflwyno'r rhaglen a ddymunid.

5.34 Fel a nodwyd yn flaenorol yn adran 5.5, roedd ymatebwyr yn teimlo na wnaeth rhaglen beilot NCS ymgysylltu'n ddigonol â hwy, ni chwrrddwyd â rhai disgwyliaidau a oedd ganddynt ac roedd hwn yn gyfle a gollwyd.

5.35 Myfyriodd nifer o ymatebwyr ar yr angen i ystyried effaith hirdymor NCS i sicrhau bod manteision byrdymor yn cael eu cynnal. Fe gyfeirion nhw at yr angen i sicrhau cymorth hirdymor ar ôl cyfranogi i

bohl ifanc ac roeddent yn pryderu y byddai peidio â gwneud hyn yn golygu, er y gallai rhaglen megis NCS gyflawni canlyniadau cadarnhaol yn y byrdymor, na fyddai manteision y rhaglen yn cael eu cynnal.

### **Ymwneud â NCS yn y dyfodol**

- 5.36 Roedd consensws cadarnhaol y byddai'r sefydliadau y cyfwelwyd â hwy yn dymuno bod yn rhan o hwyluso unrhyw raglen debyg i NCS yn y dyfodol mewn amrywiaeth o ffyrdd.
- 5.37 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn teimlo bod potensial ar gyfer rhaglen debyg i NCS yng Nghymru yn y dyfodol, ond roedd hyn yn amodol ar roi sylw i nifer o bryderon. Yn gyntaf ac yn anad dim dylai unrhyw gynllun yn y dyfodol gydnabod ac integreiddio'r gwaith ieuencid sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru ac adeiladu ar brofiad ac arbenigedd y gellir eu cynnig. Byddai hyn yn golygu sicrhau bod y cyfraniad y gall gwaith ategol yng Nghymru megis Bagloriaeth Cymru a Gwirfoddolwyr y Mileniwm ei wneud yn cael ei ystyried a'i ymgorffori'n llawn. Mae un o'r argymhellion yng ngwerthusiadau Prifysgol Abertawe yn atgyfnerthu'r neges hon.

*“Integration with the Millennium Volunteers award scheme should be sought as a key feature of future Wales NCS activity. The strong foundation in Wales for volunteer support, together with the prospect of both award attainment and transition into ongoing volunteering is an opportunity that should not be missed.”* Gwerthusiad Prifysgol Abertawe (heb ei gyhoeddi).

- 5.38 Roedd ymatebwyr yn pryderu ynghylch gwrthdaro o ran cyllid pe bai adnoddau sydd eisoes wedi'u hymestyn i'r eithaf yn cael eu dyrannu i raglen 'newydd'. Roedd ymatebwyr yn teimlo y dylai unrhyw raglen debyg i NCS yn y dyfodol fod â chyd-destun Cymreig cryf a chynnwys y Gymraeg yn ddigonol.
- 5.39 Gofynnwyd i'r rhai y cyfwelwyd â hwy, pe bai Rhaglen NCS yn parhau, pa rôl neu ymgysylltiad oeddent yn ei r(h)agweld i'w sefydliad hwy. Roedd consensws cadarnhaol y byddai'r sefydliadau y cyfwelwyd â hwy yn dymuno bod yn rhan o hwyluso unrhyw raglen



debyg i NCS yn y dyfodol mewn amrywiaeth o ffyrdd. O leiaf roedd y mwyafrif o'r sefydliadau'n dymuno bod yn rhan o unrhyw drafodaethau cychwynnol ynghylch ymwneud â rhaglen NCS yn y dyfodol. Nododd y mwyafrif hefyd eu bod yn barod i gefnogi rhaglen NCS yng Nghymru yn y dyfodol a'i hyrwyddo'n weithredol. Byddai nifer o sefydliadau'n dymuno chwarae rhan uniongyrchol yn y broses o recriwtio pobl ifanc i gyfranogi mewn rhaglen o'r fath. Mynegodd llawer o ymatebwyr siom nad oeddent wedi bod yn rhan o'r broses o recriwtio ar gyfer y rhaglen beilot ac felly roeddent yn croesawu unrhyw gyfle i ymgysylltu yn y ffordd yma ag unrhyw raglen yn y dyfodol. Roedd y sefydliadau hynny sy'n gweithredu fel cynrychiolwyr yn awyddus i ddarparu gwybodaeth am unrhyw raglen yn y dyfodol ar gyfer eu haelod-sefydliadau a'u cyfeirio at y rhaglen honno.

*'...we could be one of the local go-to organisations that the programme engages with. So we'd become champions if you like for that programme within that area'.*

*"I'm sure there would be young people from our organisation we could've pushed forward but we weren't part of the discussions around targeting people. We would welcome being part of it..."*

5.40 Hefyd, nododd nifer o ymatebwyr yn glir y byddent yn barod i ddarparu rhaglen NCS yn uniongyrchol yn y dyfodol. Er na lwyddodd cynnig y consortiwm yng Nghymru i ennill y contract i ddarparu rhaglen beilot NCS yng Nghymru roedd diddordeb ymhlith ymatebwyr mewn darparu rhaglen debyg i NCS yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd yn amlwg nad oedd yr un sefydliad unigol yn credu bod ganddo'r holl gapasiti ac arbenigedd y mae eu hangen i ddarparu NCS yng Nghymru; yn hytrach, cyd-fenter rhwng nifer o sefydliadau yng Nghymru sydd, ar y cyd, yn meddu ar y profiad, yr adnoddau a'r sgiliau (e.e. gweithwyr ieuenctid hyfforddedig) i ddarparu rhaglen o'r fath yn llwyddiannus ddylai'r trefniant fod. Nododd rhai ymatebwyr hefyd fod potensial i gyrraedd nodau a chyflawni gweithgareddau craidd rhaglen NCS trwy ei chydlynu ar draws nifer o fentrau gwahanol sydd eisoes yn cael eu cyflawni yng Nghymru.

*“Well we definitely would be interested in looking at the delivery element...”*

*“If there were opportunities to deliver NCS or to work with a consortium group of partners who would be delivering, whether it’s the model that exists at the moment or an enhanced model based on what we’ve learned from the evaluation. I think that would present some opportunities ..... and other partners to make sure that people who need that programme the most have access to it. .... A diverse dynamic is always a positive thing in my experience; and the same thing a diverse group of consortium partners”.*

### **Datblygu Ieuenctid**

- 5.41 **Roedd consensws ymhlith yr ymatebwyr o ran beth ddylai datblygu ei olygu i bobl ifanc yng Nghymru.**
- 5.42 Gofynnwyd i gyfranogwyr yn yr ymchwil sut y mae gwaith eu sefydliad yn cyfrannu at ddatblygu pobl ifanc. Cyfeiriodd y mwyafrif o’r ymatebwyr, heb gael eu harwain, at y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid a’r Strategaeth Gwaith Ieuenctid (gweler adran 3) yn eu hymateb i’r cwestiwn hwn a chwestiynau eraill. Mae ymatebwyr yn amlwg yn gweld y rôl y mae gwaith eu sefydliadau’n ei chyflawni yn yr elfennau allweddol o’r Fframwaith a’r Strategaeth. Roedd consensws o ran beth ddylai datblygu ei olygu i bobl ifanc yng Nghymru – gwella dyheadau a hyder yr holl bobl ifanc, yn enwedig y rhai sydd fwyaf agored i niwed ac wedi ymddieithrio fwyaf; gwella addysg, sgiliau, hyfforddiant a chyflogadwyedd pobl ifanc; datblygiad personol a chymdeithasol pobl ifanc; mynd â phobl ifanc ar siwrne tuag at ganlyniadau mwy cadarnhaol; cysylltu pobl ifanc â’u cymunedau a’u helpu i ddiwallu anghenion eu cymuned. Roedd ymatebwyr yn teimlo bod nodau rhaglen NCS yn cyd-fynd yn dda â’r nodau o ran datblygu ieuenctid yng Nghymru a’u bod mewn sefyllfa dda yn eu sefydliadau i fynd ar drywydd y nodau hyn.

## **Canlyniadau'r arolwg gydag athrawon o'r ysgolion a gymerodd ran**

5.43 Er mwyn casglu barn athrawon ynglŷn â rhaglen NCS anfonwyd arolwg at y cyswllt/cysylltiadau arweiniol yn y 15 ysgol a choleg y gwnaeth eu myfyrwyr gyfranogi yn rhaglen beilot NCS yng Nghymru (darparwyd y manylion cysylltu gan y sefydliad darparu, Engage4Life). Anfonwyd pymtheg arolwg, a chafwyd saith ymateb. Nid yw'n bosibl darparu cyfradd ymateb gan ein bod wedi gofyn i dderbynwyr raeadru'r arolwg i gydweithwyr perthnasol o fewn eu sefydliadau; felly nid yw nifer terfynol y bobl a gafodd gopi o'r arolwg yn hysbys. Roedd yr arolwg yn cynnwys cymysgedd o gwestiynau penagored a chaeedig. Gan fod y boblogaeth wreiddiol ar gyfer yr arolwg yn fach, nid yw canlyniadau'r arolwg yn gadarn a dim ond ciplun o safbwyntiau'r bobl sydd â rôl o ran cefnogi'r bobl ifanc a fynychodd raglen beilot NCS yng Nghymru y gall ei ddarparu. Gan amlaf adroddir ar y niferoedd gwirioneddol, yn hytrach na'r canrannau, oherwydd maint bach y boblogaeth.


5.44 Gofynnwyd i ymatebwyr nodi sut glywon nhw am raglen beilot NCS yng Nghymru. Ym mhob achos roedd y sefydliad darparu, Engage4Life, wedi cysylltu'n uniongyrchol â'r ymatebwyr ynglŷn â rhoi'r cyfle i'w myfyrwyr gyfranogi yn rhaglen beilot NCS. Gofynnwyd i'r ymatebwyr sut y gwnaethant annog neu ddewis disgyblion i gyfranogi yn Rhaglen Beilot NCS. Disgrifiwyd ystod o wahanol ffyrdd o ddewis disgyblion i gyfranogi:

- Blwyddyn 11 i gyd wedi cael cynnig y cyfle. Rhai disgyblion 6<sup>ed</sup> dosbarth wedi cael cynnig y cyfle, yn bennaf y rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim neu sy'n profi anawsterau gyda sgiliau cymdeithasol.
- Disgyblion sy'n astudio ar gyfer Safon Uwch Gyfrannol wedi cael y cyfle i gyfranogi ar ôl i Engage4Life ddod i'r ysgol i siarad gyda grwpiau tiwtorial Uwch Gyfrannol (grwpiau wedi'u dewis am fod y tiwtorialau'n digwydd ar y diwrnodau yr oedd Engage4Life ar gael i ddod i'r ysgol).
- Cyfle gwirfoddol.

- Trwy wasanaeth.
- Engage4Life wedi cael gwahoddiad i werthu'r syniad yn ein ffair i las-fyfyrrwyr.
- Wedi gwobrwyo disgyblion a enillodd gymhwyster TGAU Mathemateg ym mlwyddyn 10 a hefyd wedi dewis bechgyn yr oedd angen eu symbylu.
- Yn CA4 fe wnaeth yr Arweinydd Dysgu a minnau gynigion i'r holl ddisgyblion a oedd yn gweithio yn ein Canolfan Cymorth Dysgu (disgyblion agored i niwed a disgyblion sy'n tangyflawni). Mae'r rhain yn cynnwys yr holl ddisgyblion ac arnynt angen rhaglen gymorth bwrpasol o ganlyniad i anawsterau dysgu, bugeiliol neu gymdeithasol. Yn CA5 rhoddwyd y cynnig i grwpiau Bagloriaeth Cymru gan ein bod yn credu y byddai'n cefnogi eu gwaith yn sylweddol.

- 5.45 Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent wedi wynebu unrhyw heriau o ran recriwtio disgyblion i gymryd rhan yn Rhaglen Beilot NCS. Dywedodd tri eu bod wedi wynebu heriau. Nododd dau o'r rhain fod yr amser byr rhwng recriwtio a dechrau'r rhaglen yn broblem, gan achosi mewn un achos i rai disgyblion orfod gwrthod y cynnig. Nododd dau ymatebydd fod gwrthdaro rhwng amseriad y rhaglen a diwrnodau adolygu ar gyfer arholiadau a chyfnodau arholiadau. Nododd un ymatebydd fod canfyddiadau rhai disgyblion am yr heriau corfforol y gallent eu hwynebu yn ystod y rhaglen wedi eu dal yn ôl.
- 5.46 Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn ymwybodol o unrhyw anawsterau yr oedd eu disgyblion wedi'u hwynebu wrth gyfranogi yn Rhaglen Beilot NCS. Dim ond dau ymatebydd a ddywedodd eu bod yn ymwybodol o anawsterau yr oedd eu disgyblion wedi'u hwynebu wrth gyfranogi. Cyfeiriodd un ymatebydd at ymddygiad rhai cyfranogwyr (er na wnaeth ymhelaethu ar yr ymddygiad hwn) a nododd un arall anawsterau o ran deall y system ar gyfer y rhaggyfarfodydd/ lleoliadau a.y.b. o ystyried bod cyfran uchel o gefndiroedd di-Saesneg.

5.47 Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis ateb o restr amlddewis o opsiynau i gwestiynau a oedd yn gofyn pa fuddion yr oeddent yn meddwl y byddai Rhaglen Beilot NCS yn eu dwyn, a pha fuddion yr oeddent yn meddwl ei bod wedi eu dwyn i ddisgyblion cyn ac ar ôl iddynt gyfranogi. Mae'r graff yn dangos canfyddiadau athrawon am fuddion rhaglen beilot NCS yng Nghymru i ddisgyblion cyn ac ar ôl iddynt gymryd rhan. Mae'r graff yn dangos mai'r pedwar budd pwysicaf a ddewiswyd oedd: mwy o hyder yn gyffredinol, y gallu i weithio'n well mewn tîm, datblygu sgiliau defnyddiol a pherthnasol a mwy o ddyhead am beth allent gyflawni. Yn achos y tri budd cyntaf, mae'r buddion gwirioneddol yr oedd athrawon yn credu bod disgyblion wedi'u profi ar ôl cyfranogi'n cyd-fynd yn agos â'r buddion canfyddedig. Fodd bynnag, dim ond 57% o'r ymatebwyr oedd yn teimlo bod gan ddisgyblion fwy o ddyhead am beth allent gyflawni o'i gymharu ag 86% oedd yn ystyried bod hynny'n fudd. Y sgorau isaf ar gyfer budd canfyddedig a budd a gyflawnwyd oedd y sgorau ar gyfer mwy o wytnwch, ymddygiad gwell yn gyffredinol ac agwedd well tuag at y gymuned leol.




Ffigur 3: Canfyddiadau athrawon am fuddion rhaglen beilot NCS yng Nghymru – cyn ac ar ôl cyfranogi (sail:7).

5.48 Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn i ba raddau yr oeddent yn cytuno ag ystod o osodiadau mewn perthynas â hybu, cynllunio a chyflawni rhaglen beilot NCS yng Nghymru. Mae'r graff isod yn dangos canlyniadau'r cwestiynau hyn (yn ôl nifer yr ymatebwyr). Mae'n dangos nad oedd yr ymatebwyr yn cytuno bod rhaglen beilot NCS wedi cael ei hybu'n effeithiol gan Lywodraeth Cymru, ond eu bod yn fwy bodlon ar y modd y cafodd ei hybu gan Engage4Life. Roedd ymatebwyr yn cytuno bod rhaglen beilot NCS wedi cael ei chynllunio a'i chyflawni'n llwyddiannus. Gwnaeth tri ymatebydd sylwadau pellach ynglŷn â'r modd y cafodd rhaglen beilot NCS ei chynllunio a'i chyflawni. Gwnaeth dau sylwadau am yr angen am gyfathrebu gwell

gyda'r sefydliad darparu cyn, yn ystod ac ar ôl y rhaglen. Dywedodd un ymatebydd gymaint yr oedd myfyrwyr wedi mwynhau'r profiad.

*“I have heard nothing from the organisers since the trip and was promised pictures etc.”*




Ffigur 4: Bodlonrwydd ar y modd y cafodd Rhaglen NCS yng Nghymru ei hybu, ei chynllunio a'i chyflawni (sail: 7)

5.49 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn teimlo bod rhaglen NCS yn cyfuno'n dda â nodau addysgol ehangach yng Nghymru ac yn debyg i gynlluniau/mecanweithiau gwirfoddoli eraill yng Nghymru. Roedd yr holl ymatebwyr yn cytuno bod rhaglen NCS yn cyfuno'n dda â nodau addysgol ehangach yng Nghymru, ond roedd llai o sicrwydd a yw NCS yn debyg i gynlluniau neu fecanweithiau gwirfoddoli eraill yng Nghymru. Cafwyd dau sylw pellach am integreiddio NCS:

*“I believe the aims and aspirations of the NCS reflect the aspirational aims of both the Welsh Baccalaureate and Duke of Edinburgh programmes. With small amendments closer collaboration would be successful.”*

*“They can link the volunteering hours to the MV50 [Millennium Volunteers] programme or similar programmes.....”*



Ffigwr 5: Integreiddio Rhaglen Beilot NCS yng Nghymru (sail:7)

5.50 Roedd chwech o bob saith ymatebydd yn teimlo y byddai parhau â nodau rhaglen NCS o fudd i bobl ifanc yng Nghymru. Ymatebodd un gan ddweud ei fod 'ddim yn gwybod'. Gofynnwyd wedyn i'r ymatebwyr osod pedwar nod allweddol rhaglen NCS yn nhrefn pwysigrwydd – cydlyniad, cyfrifoldeb, ymgysylltu â chymunedau a chymysgu cymdeithasol. Cydlyniad gafodd y sgôr cyfartalog uchaf o 3.5, gyda chymysgu cymdeithasol - 2.67, cyfrifoldeb - 2.17 ac ymgysylltu â chymunedau - 1.67 yn dilyn (sail: 6).

5.51 Dau sylw pellach a wnaed gan ymatebwyr oedd:

*“This programme has come about at the right time. Schools and pupils are under a great amount of pressure to raise standards of learning and as a result some of the “fun” of going to school is being left out! The programme offers students the opportunities that were once offered in schools to engage socially and practically in activities designed to encourage teamwork, improving own learning (the old key skills) I am in full support of this programme and would like to thank everyone involved for allowing our school to take part.”*

*“Engage 4 Life staff were positive, encouraging and motivating. However, there must be a greater respect for the schools expectations on behaviour and smoking.”*



**Crynodeb o ganlyniadau gwerthusiadau'r Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol (2012, 2013) ac Ipsos MORI (2013), gan gynnwys arsylwadau o werthusiad Prifysgol Abertawe (heb ei gyhoeddi)**

- 5.52 Mae gwerthusiadau blaenorol o effaith NCS ar gyfranogwyr wedi mesur i ba raddau y mae cynlluniau NCS wedi cael effaith ar y pedwar maes canlyniad allweddol. Cynhaliwyd pedwar gwerthusiad hyd yma: gwerthusiad o raglen beilot NCS yn 2011 a gwerthusiad o gyfranogiad yn ystod yr haf a'r hydref yn rhaglen NCS yn 2012 (Y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol, Mai 2012 a Gorffennaf 2013); gwerthusiad o garfannau NCS haf a hydref 2013 a 2014, gan gynnwys rhaglen beilot NCS yng Nghymru yn 2014 (Ipsos MORI Awst 2014 ac i'w gyhoeddi). Nid yw data o ymchwil Ipsos MORI yn 2014 wedi'i gynnwys yn yr adroddiad drafft hwn gan fod oedi wedi bod cyn ei gyhoeddi. Fe wnaeth gwerthusiadau 2012, 13 ac 14 amcangyfrif effaith y rhaglen trwy gasglu data gan gyfranogwyr NCS ac o sampl gyfatebol gyfamserol o bobl ifanc 16 oed na wnaethant gymryd rhan yn y rhaglen. Gofynnwyd yr un cwestiynau a oedd yn mesur canlyniadau allweddol i'r samplau yn yr haf a'r hydref yn 2012 a 2013, ond roedd rhai gwahaniaethau yn yr union gwestiynau a ofynnwyd dan bob thema allweddol rhwng adroddiadau'r Ganolfan Genedlaethol ac Ipsos MORI. Wedyn cafodd canlyniadau cyn ac ar ôl y rhaglen i gyfranogwyr NCS eu cymharu â rhai'r sampl gymharu. Canlyniadau'r sampl gymharu sy'n cynrychioli'r amcangyfrif gorau o'r canlyniadau i gyfranogwyr NCS pe na baent wedi cymryd rhan yn NCS – hynny yw, eu canlyniadau gwrthffeithiol. Mae cymharu canlyniadau cyfranogwyr â'r canlyniadau gwrthffeithiol yn rhoi amcangyfrif o effaith annibynnol cyfranogi yn NCS.
- 5.53 Roedd y ddau werthusiad yn cynnwys astudiaeth o'r effeithiau a oedd wedi'i bwriadu i asesu effeithiau annibynnol rhaglen NCS trwy arolwg cyn cyfranogi ac ar ôl cyfranogi gyda chyfranogwyr NCS yn yr haf a'r hydref. Nod y ddau oedd asesu gwerth am arian NCS.

- 5.54 Yn ogystal â mesur profiadau cyfranogwyr, cafodd nifer o ddangosyddion eu mesur dan bob un o'r pedwar maes effaith: cymysgu cymdeithasol, pontio i oedolaeth, sgiliau gwaith tîm, cyfathrebu ac arwain a chwarae rhan yn y gymuned.
- 5.55 Cafodd gwerthusiadau pellach o'r carfanau o gyfranogwyr NCS yn haf a hydref 2014 eu cynnal gan Ipsos MORI, ac mae'r rhain yn cynnwys peth data ynghylch y cyfranogwyr yn y rhaglen beilot yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw'r data o'r arolwg ar lefel Cymru wedi cael ei gynnwys yn yr adroddiad hwn gan fod y gyfradd ymateb yn rhy isel i ddarparu unrhyw ddata ystyrlon a chan na ellid gwneud unrhyw waith i brofi ei arwyddocâd.
- 5.56 Mae'r adran ganlynol yn darparu crynodeb byr o'r canlyniadau mewn perthynas â phrofiadau a meysydd effaith cyfranogwyr o werthusiadau 2012 a 2013. Mae hefyd yn cynnwys rhai arsylwadau am brofiadau cyfranogwyr o werthusiad Prifysgol Abertawe yn seiliedig ar gyfweiliadau ansoddol gyda chyfranogwyr.
- 5.57 Mae gwerthusiad 2012 (Y Ganolfan Genedlaethol) yn dangos bod gan fwyafrif llethol o'r cyfranogwyr yn rhaglenni'r haf a'r hydref farn gadarnhaol am eu profiad, gyda'r holl bobl ifanc a arolygwyd bron iawn (88% yn yr haf, 86% yn yr hydref) yn dweud y byddent yn bendant yn argymhell NCS wrth ffrind. Roedd gwerthusiad 2013 yn dangos bod naw ym mhob deg (90% yn yr haf, 87% yn yr hydref) yn dweud y byddent yn bendant yn argymhell y rhaglen wrth eraill. Canfu astudiaeth Prifysgol Abertawe fod y mwyafrif o'r cyfranogwyr wedi dweud iddynt gofrestru ar gyfer y rhaglen am fod y cynnwys i'w weld yn apelgar, yn ysbrydoledig ac yn ddiddorol. Rhesymau eraill a roddwyd dros gyfranogi oedd: y cyfle ar gyfer integreiddio cymdeithasol a chwrdd â phobl newydd, y cyfle ar gyfer datblygiad personol megis gwella hyder a sgiliau, y cyfle i gael profiadau newydd ac roedd cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r manteision i geisiadau am gyflogaeth a chyrsgiau addysg bellach.

### *Cymysgu cymdeithasol*

5.58 Roedd rhai gwahaniaethau yn y cwestiynau a ddefnyddiwyd i fesur y maes canlyniad hwn rhwng gwerthusiadau 2012 a 2013. Roedd gwerthusiad 2013 yn dangos bod NCS wedi cael effaith gadarnhaol ar barodrwydd cyfranogwyr i ymddiried mewn pobl eraill ac ar fesurau o agweddau tuag at gymysgu gyda phobl o gefndiroedd gwahanol. Fodd bynnag, canfu'r gwerthusiad, er bod NCS wedi achosi i'r rhai a oedd eisoes yn cymysgu'n gymdeithasol gyda grwpiau gwahanol wneud hyn yn amlach, nad yw'n symud pobl ifanc o fod heb unrhyw gyswllt i gael peth cyswllt â'r grwpiau hyn<sup>1</sup>.

### *Pontio i oedolaeth*

5.59 Mewn perthynas â sgiliau bywyd, canfuwyd fod NCS 2012 wedi cael effaith arwyddocaol ar y gyfran a ddywedodd eu bod yn "dda am roi cynnig ar bethau sy'n newydd i mi". Roedd cyfweiliadau ansoddol yn awgrymu bod gweithgareddau penodol a ddigwyddodd fel rhan o NCS yn annog pobl ifanc i ddatblygu sgiliau bywyd ac yn helpu pobl ifanc i ddod yn ymwybodol o fwy o gyfleoedd ar gyfer y dyfodol. Yn arbennig, ystyrir bod cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn mewn amgylchedd cefnogol yn rhoi mwy o hyder i bobl ifanc roi cynnig ar bethau newydd. Roedd teimlad hefyd bod NCS yn cynnig rhywbeth defnyddiol i'w ychwanegu ac CV pobl ifanc ac yn agor cyfleoedd i wneud mwy o wirfoddoli neu brofiad gwaith a allai arwain at waith am dâl yn y dyfodol.

5.60 Roedd gwerthusiad 2013 yn dangos bod effeithiau cadarnhaol wedi'u canfod ar draws sawl agwedd ar y maes canlyniad pontio i oedolaeth. Roedd effeithiau cadarnhaol ar ddyheadau addysgol a gyrfaol byrdymor a hirdymor cyfranogwyr, roedd NCS wedi cynyddu hyder cyfranogwyr mewn sgiliau bywyd ymarferol, megis gwneud penderfyniadau a rheoli arian, wedi gwella'u parodrwydd i roi cynnig

---

<sup>1</sup> O gefndir cyfoethocach neu dlotach, o ysgol neu goleg gwahanol, sy'n hoyw neu'n lesbiaidd, o oedran ymddeol, sy'n anabl.

ar bethau newydd ac wedi cynyddu eu gwydnwch pan fo pethau'n mynd o chwith.

- 5.61 Canfu astudiaeth Prifysgol Abertawe hefyd fod cyfranogwyr yn dweud bod NCS wedi cael effaith gadarnhaol ar eu barn ynglŷn â symud ymlaen at gymwysterau a/neu wneud cynlluniau mwy pendant ar gyfer gyrfa.
- 5.62 Roedd tystiolaeth o gyfweiliadau gyda chyfranogwyr yn awgrymu bod rhaglen beilot NCS yng Nghymru yn 2014 wedi rhoi 'ysbrydoliaeth' i'r mwyafrif o'r cyfranogwyr, yn enwedig trwy'r siaradwyr gwadd. Roedd datblygiad personol yn thema gref hefyd gyda llawer yn nodi newidiadau cadarnhaol mewn hyder, ystyriaeth i eraill ac aeddfedrwydd. Trafododd llawer fod ganddynt benderfyniad newydd i lwyddo yn yr ysgol ac yn y coleg er mwyn ymgymryd â'u dewis yrfa'n llwyddiannus. Roedd hyn yn cynnwys nid dim ond safbwyntiau'r rhai â dyheadau addysgol uwch i ddilyn gyrfaoedd i raddedigion, ond hefyd ystod o lwybrau galwedigaethol trwy AB a phrentisiaethau. Roedd nifer o gyfranogwyr yn cydnabod eu bod wedi darganfod safbwyntiau entrepreneuriaid newydd am y dyfodol, megis posibiladau gyrfaol a'r realiti o fod yn berchen ar eu busnes eu hunain (Prifysgol Abertawe, heb ei gyhoeddi).

*Gwaith tîm, cyfathrebu ac arwain*

- 5.63 Canfu gwerthusiad 2012 mai ar sgiliau gwaith tîm, cyfathrebu ac arwain pobl ifanc yr oedd NCS wedi cael yr effeithiau mwyaf arwyddocaol, gydag effeithiau ystadegol arwyddocaol yn cael eu gweld ym mhob maes. Mae cyfweiliadau ansoddol yn awgrymu bod cynllun y rhaglen a natur gynyddol y rhaglen yn cael dylanwad cadarnhaol ar effeithiau yn y maes hwn. Yn gyntaf, mae'r rhaglen yn ei gwneud yn ofynnol i gyfranogwyr brofi a datblygu eu sgiliau cyfathrebu gyda phobl ifanc eraill cyn gwneud hynny gydag oedolion y maent yn eu hadnabod ac, yn olaf, gyda rhanddeiliaid yn y gymuned ehangach. Yn ail, disgrifiodd cyfranogwyr y modd y gwnaeth yr elfennau preswyl eu rhoi mewn sefyllfaoedd anghyfarwydd, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt weithio gyda phobl nad oeddent yn eu

hadnabod ond mewn amgylchedd yr oeddent yn ei gael yn gefnogol. Yn olaf, roedd yn ofynnol i gyfranogwyr gyflawni rolau arwain a myfyrio ar eu dulliau eu hunain o fewn fframwaith cefnogol eu tîm NCS.

- 5.64 Dangosodd gwerthusiad 2013 hefyd fod yr effeithiau cadarnhaol ar ymagwedd cyfranogwyr at arwain a chyfathrebu gyda'r cryfaf a welwyd ar draws yr holl feysydd canlyniadau. Fe wnaeth NCS wella hyder cyfranogwyr i arwain a gweithio mewn tîm, a chynnig ac egluro syniadau newydd i eraill.
- 5.65 Gofynnodd gwerthusiad Prifysgol Abertawe i gyfranogwyr a oedd y rhaglen wedi newid unrhyw farn a oedd ganddynt am waith tîm. Dywedodd y mwyafrif fod newidiadau cadarnhaol wedi digwydd lle'r oedd gweithio gydag eraill yn y cwestiwn. Dywedodd llawer eu bod wedi gweld manteision a phwysigrwydd gwaith tîm. Roedd hyn wedi arwain at awydd i gyflawni ac roedd yn cael ei briodoli'n bennaf i ddylanwad y siaradwyr gwadd. Dywedodd nifer o gyfranogwyr fod datblygiad personol cadarnhaol wedi digwydd gan gynnwys newidiadau mewn ymddygiad, ystyriaeth i eraill a chanfyddiad am eraill.

#### *Chwarae Rhan yn y Gymuned*

- 5.66 Roedd gwerthusiad 2012 yn dangos bod rhaglen yr haf yn gysylltiedig â dwy effaith ym maes chwarae rhan yn y gymuned – effaith gadarnhaol mewn perthynas â helpu yn y dyfodol ac mewn perthynas â dylanwad lleol. Roedd dros 70% o'r cyfranogwyr yn teimlo'u bod yn fwy tebygol o helpu yn y gymuned leol oherwydd NCS a dywedodd dros 60% o'r cyfranogwyr eu bod yn teimlo mwy o gyfrifoldeb tuag at y gymuned leol yn dilyn NCS.
- 5.67 Canfu gwerthusiad 2013 fod NCS wedi cael sawl effaith gadarnhaol ar agweddau ac ymddygiadau mewn perthynas â chwarae rhan yn y gymuned, a oedd gyda'r effeithiau mwyaf cyson a welwyd ar draws pob maes canlyniad. Roedd gwelliannau o ran y canlynol: faint yr oedd cyfranogwyr yn teimlo'u bod yn ei wybod ynghylch sut i chwarae

rhan yn eu cymunedau lleol a sut i fynd i'r afael â phroblemau lleol; faint o ddylanwad yr oedd cyfranogwyr yn teimlo bod ganddynt wrth chwarae rhan a pha un a oeddent yn teimlo'u bod yn gallu chwarae rhan; a gweithgarwch gwirioneddol gan gyfranogwyr i ymgysylltu â'r gymuned.

- 5.68 Dywedodd y mwyafrif o'r cyfranogwyr yn Rhaglen Beilot NCS yng Nghymru fod y rhaglen wedi cynyddu eu hymwybyddiaeth o'u cymuned, ei materion a'i hanghenion, a phwysigrwydd ymgysylltu ag awdurdod ac eraill. Dywedodd nifer lai o ymatebwyr nad oedd y rhaglen wedi newid eu barn am chwarae rhan yn y gymuned. Trydedd thema a ddaeth i'r amlwg oedd cred gynyddol mewn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'w cymunedau (Prifysgol Abertawe, heb ei gyhoeddi).

## 6. Argymhellion

- 6.1 Argymhelliad 1: Dylai dulliau eraill o ddarparu elfennau o fodel NCS yng Nghymru gael eu hystyried yn ofalus. Er bod cytundeb bod model NCS yn arlwy gadarnhaol i bobl ifanc yng Nghymru a bod llawer o'r agweddau ar fodel NCS yn cyd-fynd yn dda â chyfleoedd gwaith ieuencid a gwirfoddoli a gynigir yn barod gan Fagloriaeth Cymru a sefydliadau eraill yng Nghymru ac yn gorgyffwrdd â'r rhain, nid yw'r un ar ei ben ei hyn yn cynnig pob agwedd ar fodel NCS mewn un pecyn (gweler argymhelliad 2).
- 6.2 Argymhelliad 2: Dylai mentrau yn y dyfodol gydnabod ac integreiddio'r gwaith ieuencid sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru ac adeiladu ar y profiad a'r arbenigedd y gellir eu cynnig. Fe wnaeth pob un o'r sefydliadau y cyfwelwyd â hwy ddynodi eu parodrwydd i ymgysylltu â rhaglen NCS yng Nghymru yn y dyfodol, trwy ddarparu'n uniongyrchol neu fathau eraill o gymorth, megis recriwtio. Amlygodd y rhai y cyfwelwyd â hwy bwysigrwydd cydnabod y potensial sydd gan sefydliadau sy'n gweithredu yng Nghymru i ddarparu rhaglen NCS yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r sefydliadau hyn yn deall y dirwedd a'r fframweithiau strategol yng Nghymru ac mae ganddynt y profiad a'r sgiliau i ddarparu a chefnogi rhaglenni gwaith ieuencid. Roedd y rhan fwyaf o sefydliadau'n cydnabod y byddai gweithio ar eu pen eu hunain o bosibl yn golygu nad oes ganddynt yr adnoddau a'r capasiti i ddarparu NCS, ond roeddent yn barod iawn i weithio gyda sefydliadau eraill i ddarparu rhaglen debyg i NCS naill ai fel consortiwm neu mewn ffordd gydgyssylltiedig gan sicrhau bod gwahanol lwybrau achredu'n cael eu cydgysylltu â'i gilydd yn fwy.
- 6.3 Argymhelliad 3: Dylai pa bynnag benderfyniad a gaiff ei wneud ynglŷn â darparu NCS yng Nghymru yn y dyfodol (er enghraifft model NCS llawn neu fodel diwygiedig yng Nghymru) sicrhau nad yw'n colli'r un cyfleoedd ag a gollwyd yn barod fel a amlygir yn yr adroddiad hwn; yn benodol i ymgysylltu â'r holl randdeiliaid perthnasol (gweler argymhellion 4 a 6) a sicrhau nad yw recriwtio'n digwydd mewn

ysgolion yn unig (gweler argymhelliad 5).

Argymhelliad 4: Roedd llawer o'r diffyg ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol i'w briodoli i'r amser byr a oedd ar gael i ddarparu'r rhaglen; felly dylai ystyriaethau ar gyfer darparu yn y dyfodol sicrhau bod digon o amser yn cael ei gynnwys ar gyfer darparu'r rhaglen er mwyn sicrhau yr ymgysylltir yn effeithiol â'r holl sefydliadau perthnasol.

Argymhelliad 5: Dylai rhaglenni ymgysylltu a gwirfoddoli ieuenctid yng Nghymru yn y dyfodol ystyried pwysigrwydd sicrhau bod recriwtio'n digwydd y tu allan i ysgolion ac ymgysylltu â'r sector yn ei gyfanrwydd i sicrhau bod yr holl bobl ifanc yn cael cynnig y cyfle i gymryd rhan.

Argymhelliad 6: Dylai rhaglenni ymgysylltu a gwirfoddoli ieuenctid yng Nghymru yn y dyfodol ymgysylltu â'r adnodd gwirfoddoli allweddol a gynigir gan y Cynghorau Gwirfoddol Sirol i gyflawni'r agwedd gwasanaeth cymunedol/gwirfoddol ar y rhaglen yn llwyddiannus. Mae hyn hefyd yn dwyn goblygiadau i'r agwedd wirfoddoli ar y fersiwn newydd o Fagloriaeth Cymru gan fod pryderon wedi cael eu mynegi ynghylch capasiti'r sector i gefnogi gofynion gwirfoddoli'r fersiwn ddiwygiedig o Fagloriaeth Cymru.

Argymhelliad 8: Pa bynnag benderfyniad a wneir ynglŷn â darparu NCS yng Nghymru yn y dyfodol dylai fod â chyd-destun Cymreig cryf a chynnwys y Gymraeg yn ddigonol.

Argymhelliad 7: Llwyddodd Rhaglen Beilot NCS yng Nghymru i greu brand deniadol a 'bwrlwm'. Gallai sefydliadau yng Nghymru gydweithio i greu 'bwrlwm' ynglŷn â'r hyn sydd eisoes yn digwydd yng Nghymru neu o bosibl greu rhaglen sy'n gyfystyr â 'NCS yng Nghymru' gyda'r un lefelau o ran brandio ac ymgysylltu.

Argymhelliad 9: Mae angen sicrhau cymorth hirdymor ar ôl cyfranogi i bobl ifanc er mwyn cynnal y manteision byrdymor. Er y gall rhaglen fel NCS gyflawni canlyniadau cadarnhaol yn y byrdymor, efallai nad yw'r manteision hyn yn cael eu cynnal. Gallai model NCS ddarparu llwyfan effeithiol ar gyfer y camau nesaf i bobl ifanc at rai o'r cyfleoedd eraill o ran gwaith ieuenctid a



gwirfoddoli yng Nghymru ac yn rhyngwladol pe bai'r cwbl yn cael ei gydgysylltu'n briodol o ran recriwtio, darparu a chymorth a chyfeirio pellach.

Argymhelliad 10: Mae'n rhaid i ystyriaeth bellach o ran sut i ddarparu elfennau o raglen NCS yng Nghymru gynnwys y pryder bod rhaglen NCS yn ddrud, ac y gallai parhau â hi fynd ag adnoddau sydd eisoes yn gyfyngedig i ffwrdd oddi wrth y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd yng Nghymru.

Argymhelliad 11: Cydnabuwyd, er bod peth gwaith yn cael ei wneud i werthuso effeithiau gwaith ieuenctid a gwirfoddoli, bod lle i wella'r modd y caiff effeithiau mentrau o'r fath ar bobl ifanc eu gwerthuso yn y tymor hir. Dylai trefniadau i ddarparu rhaglenni ymgysylltu a gwirfoddoli ieuenctid yng Nghymru yn y dyfodol ystyried anghenion o ran gwerthusiadau sylfaenol a hirdymor. Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i gasglu data monitro sy'n ei gwneud yn bosibl i ganlyniadau unrhyw fenter debyg i NCS gael eu hasesu'n iawn.

Argymhelliad 12: Dylai unrhyw amrywiad ar NCS yn y dyfodol nodi'n glir beth mae'n ei gynnig yn ychwanegol at fframweithiau, rhaglenni a mentrau presennol sy'n gweithio tuag at ganlyniadau tebyg a nodi perthynas eglur â'r rhain.

**Adran cyfeirnod**

Booth, C. et al., 2014. 'National Citizens Service 2013 Evaluation', Ipsos MORI, August 2014.

Brown, A. et al., 2013 'Evaluation of National Citizens Service: Findings from the evaluations of the 2012 summer and autumn NCS programmes', NatCen Social Research, July 2013.

## **Atodiad A**

### **Cwestiynau'r cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid**

#### **Cefndir**

1. Allwch chi ddechrau drwy sôn ychydig am eich sefydliad a'ch rôl chi?
2. Beth yw'r prif heriau y mae'ch sefydliad chi'n eu hwynebu?

#### **Rhaglen y Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol**

1. Fuo'ch chi'n rhan o Raglen y Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol mewn unrhyw ffordd?

Os bu'n rhan o'r rhaglen:

- 1a. Os buoch chi'n rhan o'r rhaglen, ym mha ffordd?
  2. Yn eich barn chi, wnaeth rhaglen beilot y Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol gyflawni'i amcanion?
  3. Ydych chi'n teimlo bod y sefydliad a fu'n rhoi'r Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol ar waith (Engage4Life) wedi ymgysylltu'n ddigonol â chi / eich sefydliad?
  4. Wnaethoch chi wynebu unrhyw heriau o ran ymgysylltu â rhaglen beilot y Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol?
  5. Beth yw'ch argraff gyffredinol o raglen y Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol?
  6. Pe bai rhaglen y Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol yn parhau, pa rôl fyddai ganddi yng Nghymru yn eich tyb chi?
  7. Pe bai rhaglen y Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol yn parhau, pa rôl neu ran fyddai gan eich sefydliad chi yn eich tyb chi?
  8. Pa wersi allwn ni eu dysgu o raglen beilot y Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol yng Nghymru?

Os na fu'n rhan o'r rhaglen:

1. Os na fuoch chi'n rhan o'r rhaglen, ydych chi'n gwybod am raglen y Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol?

2. Gawsoch chi unrhyw gyfleoedd i gymryd rhan yn rhaglen y Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol ar unrhyw adeg?
3. Os cawsoch chi gyfleoedd, pam na wnaethoch chi achub ar y cyfleoedd hyn?

### **Integreiddio**

Gofynnwch y cwestiynau i'r ddau grŵp:

1. Yn eich barn chi, i ba raddau y mae'r Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol yn cydweddu â mentrau eraill yng Nghymru?
2. Yn eich barn chi, sut mae'r Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol yn cydweddu â'r amcanion addysgol a datblygu ieuencid ehangach yng Nghymru?
3. Oes unrhyw debygrwydd neu wrthdaro rhwng y Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol ac amcanion neu flaenoriaethau'ch sefydliad chi?
4. Pa wersi allwn ni eu dysgu o raglen beilot y Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol yng Nghymru?
5. Sut fyddai modd gwella rhaglen y Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol drwy fynd i'r afael â phobl ifanc a gwirfoddoli gan ddefnyddio'r dull cyffredinol sydd ar waith yng Nghymru?

Hoffech chi wneud unrhyw sylwadau eraill am raglen y Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol yng Nghymru?

## Atodiad B

### Arolwg gydag athrawon mewn ysgolion a gymerodd ran

1. A wnaeth disgyblion o'ch ysgol chi gymryd rhan yn Rhaglen Beilot y Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol (NCS) yng Nghymru?  
Do/Naddo
2. Sut clywsoch chi am NCS?
3. Sut wnaethoch chi ddewis disgyblion i gymryd rhan yn Rhaglen Beilot NCS?
4. A wnaethoch chi wynebu unrhyw heriau i recriwtio disgyblion yn Rhaglen Beilot NCS? Oedd/Nac oedd
5. Os 'oedd', beth oedd yr heriau yr oedd rhaid ichi eu hwynebu i recriwtio disgyblion yn Rhaglen Beilot NCS?
6. A ydych chi'n gwybod am unrhyw anawsterau yr oedd eich disgyblion wedi'u hwynebu wrth gymryd rhan yn Rhaglen Beilot NCS? Ydw/Nac ydw
7. Os 'ydw', beth oedd yr anawsterau neu heriau yr oedd eich disgyblion wedi'u hwynebu wrth gymryd rhan yn Rhaglen Beilot NCS?
  
8. Cyn cymryd rhan yn Rhaglen Beilot NCS, sut yr oeddech chi'n meddwl y byddai'r disgyblion yn elwa o gymryd rhan? Ticiwch bob un sy'n berthnasol

Agwedd well yn gyffredinol

Ymddygiad gwell yn gyffredinol

Mwy o ddyhead am beth allent gyflawni

Mwy o hyder yn gyffredinol

Mwy o wytnwch

Datblygu ffordd annibynnol o feddwl

Datblygu sgiliau defnyddiol a pherthnasol

Y gallu i weithio'n well mewn tîm

Agwedd fwy cadarnhaol tuag at bobl o wahanol gefndiroedd

Agwedd well tuag at y gymuned leol

Mwy o ddealltwriaeth am y gymuned leol

Mwy o wirfoddoli

Arall, nodwch

9. Gan feddwl am y cyfnod y bu eich disgyblion yn cymryd rhan yn Rhaglen Beilot NCS ac ar ôl y cyfnod hwnnw, sut yr oedd y disgyblion wedi elwa o'r rhaglen yn eich barn chi? Ticiwch bob un sy'n berthnasol

Agwedd well

Ymddygiad gwell

Mwy o ddyhead

Mwy o hyder

Mwy o wytnwch

Datblygu ffordd annibynnol o feddwl

Datblygu sgiliau defnyddiol a pherthnasol

Y gallu i weithio'n well mewn tîm

Agwedd fwy cadarnhaol tuag at bobl o wahanol gefndiroedd

Agwedd well tuag at y gymuned leol

Mwy o ddealltwriaeth am y gymuned leol

Mwy o wirfoddoli

Arall, nodwch

10. Os oes gennych unrhyw sylwadau pellach am fuddion y rhaglen NCS i eich disgyblion, yna nodwch yma:

11. Os oes gennych unrhyw adborth ar unrhyw weithgaredd arbennig a ymgymerwyd gan eich disgyblion, yna nodwch yma:

12. I ba raddau yr ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?

Cafodd Rhaglen Beilot NCS yng Nghymru ei hybu mewn modd effeithiol gan y Llywodraeth Gymraeg

Cafodd Rhaglen Beilot NCS yng Nghymru ei hybu mewn modd effeithiol gan y sefydliad cyflawni Engage4Life

Cafodd Rhaglen Beilot NCS yng Nghymru ei chynllunio mewn modd effeithiol

o ran ei chynnwys

Cafodd Rhaglen Beilot NCS yng Nghymru ei chyflawni mewn modd effeithiol

13. Os oes gennych unrhyw sylwadau ar y modd y cafodd Rhaglen Beilot NCS yng Nghymru ei chynllunio a'i chyflawni, yna nodwch y sylwadau hynny yma:

### **Integreiddio**

Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi nifer o'i rhaglenni ei hun i annog pobl ifanc i ymgysylltu ac i wirfoddoli yng Nghymru. Roedd disgwyl i raglen beilot y Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol integreiddio â rhaglenni Llywodraeth Cymru a gweithio ochr yn ochr â nhw, lle'r oedd hynny'n bosib.

14. I ba raddau yr ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?

Mae rhaglen NCS yn cyfuno'n dda â nodau addysgol ehangach yng Nghymru

Mae rhaglen NCS yn debyg i gynlluniau gwirfoddoli eraill yng Nghymru?

15. Os oes gennych unrhyw sylwadau am y ffordd y mae rhaglen NCS yn gallu bod yn rhan o'r darlun ehangach ym maes gwirfoddoli ieuencid ac addysg yng Nghymru, nodwch y sylwadau hynny yma:

16. A fyddai parhad nodau'r rhaglen NCS o fudd i bobl ifanc yng Nghymru?  
Byddai/na fyddai

17. Os byddai, pa nodau sydd fwyaf pwysig? (ranciwch yn ôl pwysigrwydd)?

Cydlyniant

Cyfrifoldeb

Ymgysylltu â chymunedau

Cymysgu cymdeithasol

18. Gofynnwn ichi rannu unrhyw sylwadau neu argraffiadau sydd gennych am raglen NCS yma: